RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
38/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
02/06/2021

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

## Adroddiad Canol Tymor

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-284-2

Gwerthusiad o'r Rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol: Adroddiad Canol Tymor

Oliver Allies
Declan Turner

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O., Turner, D. (2021). *Gwerthusiad o'r Rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 38/2021
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthuso-adeiladu-ar-gyfer-y-dyfodol-adroddiad-canol-tymor

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Katy Marrin
Yr Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau....1
Rhestr ffigurau.... ...1
Geirfa ....2
1. Cyflwyniad a Chefndir....3
2. Cyd-destun ....11
3. Cynnydd....200
4. Cynnydd y Prosiect....31
5. Themâu Trawsbynciol .... 40
6. Sylwadau am Raglen AAGYD ....49
Deunydd Cyfeirio ....58
Atodiad A: Fframwaith Gwerthuso Prosiectau a Dewis Astudiaethau Achos ....59
Atodiad B: Canllawiau Trafod Rhanddeiliaid ....753

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Targedau Dangosyddion AAGYD ac Allbwn ERDF ....4
Tabl 3.1: Statws Prosiectau AAGYD....20
Tabl 3.2: Dyrannu Cyllid (Cyfanswm y Pecyn) yn ôl Prosiect (£) ....24
Tabl 3.3: Allbynnau Craidd AAGYD yn ôl Prosiect (Tachwedd 2020) ....26
Tabl 3.4: Gwerth am Arian (Asesiad Cost-Effeithiolrwydd) ....28
Tabl 3.5: Dangosyddion Allbwn a Dargedwyd ac a Gymeradwywyd ....30
Tabl 5.1: Dangosyddion Themâu Trawsbynciol ....41
Tabl A.1: Fframwaith Gwerthuso Prosiectau ....65
Tabl A.2: Teipoleg Prosiectau ....68
Tabl A.3: Astudiaethau Achos a Awgrymir....74

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1: Proses Cymeradwyo Prosiect AAGYD ....14
Ffigur 3.1: Dosbarthiad Daearyddol Prosiectau AAGYD....23
Ffigur 3.2: Amserlenni Adeiladu Disgwyliedig ar gyfer Pob Prosiect AAGYD ....255
Ffigur 4.1: Tîm Rheoli Rhaglen AAGYD – Rhagfyr 2020 ....32
Ffigur A.1: AAGYD – Damcaniaeth Newid....62

**Geirfa**

| Acronym/Prif Lythrennau/Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| AAGYD | Adeiladu ar gyfer y Dyfodol |
| BREEAM | Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| CALI | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| RIBA | Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain |
| BBaCh | Busnesau Bach a Chanolig |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Ym mis Rhagfyr 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru (LlC) Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol (AAGYD).

1.2 Mae AAGYD yn rhaglen gwerth £108 miliwn gyda £38 miliwn ar gael drwy Raglen Weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Blaenoriaeth 4, Amcan Penodol 4: 'cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol'. [1] Mae £16m o arian ERDF yn arian cyfatebol wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru ac arian cyfatebol ychwanegol (sy'n cyfateb i'r £54m sy'n weddill) a gyfrannwyd drwy amrywiol ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Pan fydd costau eraill sy'n gysylltiedig â phrosiectau AAGYD yn cael eu hystyried (sy'n gysylltiedig â darparu tai ac elfennau eraill o brosiectau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid AAGYD) amcangyfrifir y bydd £140m yn cael ei fuddsoddi yn y prosiectau a ariennir drwy raglen AAGYD.

1.3 Mae'r rhaglen AAGYD yn adeiladu ar raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru[2], gan weithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat i ailddatblygu adeiladau a thir nas defnyddir o fewn neu'n gysylltiedig â chanol trefi a dinasoedd. Mae'r rhaglen yn targedu tir ac adeiladau sydd wedi bod yn anodd i awdurdodau lleol eu defnyddio ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi amcan polisi adfywio Llywodraeth Cymru o gynyddu bywiogrwydd a niferoedd yng nghanol trefi Cymru. Nod AAGYD yw cyflawni hyn drwy fuddsoddi mewn datblygu safleoedd nas defnyddir neu na chânt eu defnyddio'n ddigonol a fydd yn arwain at leoli busnesau a swyddi newydd; gwasanaethau canolog a rhai a gydleolir i helpu i gyfeirio a chynyddu niferoedd ymwelwyr a thrigolion; a chyflenwi mwy o dai neu adnewyddu tai (er nad yw darparu tai yn gymwys ar gyfer cyllid ERDF).

**Gwerthuso**

1.4 Comisiynwyd y gwerthusiad er mwyn ceisio asesu i ba raddau y mae rhaglen AAGYD wedi cyflawni allbynnau ERDF, targedau dangosyddion (a nodir yn Nhabl 1 isod), a'r nodau (canlyniadau) sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun busnes y rhaglen.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2014) *Rhaglen Weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ERDF*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

[2] Llywodraeth Cymru (2013) *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Fframwaith Adfywio Newydd*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

**Tabl 1.1: Targedau Dangosyddion AAGYD ac Allbwn ERDF**[3]

| Dangosydd Allbwn | Cyfanswm |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd (ERDF) | 2,792 |
| Buddsoddiad a Ddenwyd mewn £000oedd (AAGYD) (**Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd**)[4] | 9,859 |
| Busnesau Bach a Chanolig a Grëwyd (ERDF) | 159 |
| Safleoedd a Grëwyd /Adnewyddwyd ($M^2$) (ERDF) | 49,626 |
| Swyddi Gros a Grëwyd (AAGYD) | 1,996 |
| Tir a Ddatblygwyd (Hectarau) (ERDF) | 3.154 |
| Cyfanswm nifer yr Hyfforddeiaethau ar y prosiect (AAGYD) | 49 |
| Nifer y rhai sy'n gadael hyfforddeiaeth sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach (AAGYD) | 20 |
| Nifer y rhai sy'n gadael hyfforddeiaeth sy'n symud ymlaen i gyflogaeth (AAGYD) | 27 |

1.5 Hefyd, mae'r gwerthusiad yn ceisio llywio'r gwaith o gyflawni rhaglenni adfywio yn y dyfodol ac asesu dilysrwydd a graddau llwyddiant cydweithio rhanbarthol. Mae nodau'r rhaglen yn cynnwys:

- Darparu safleoedd addas i fusnesau leoli a thyfu.
- Cynnydd o ran cyfleoedd cyflogaeth hygyrch a leolir yng nghanol trefi.
- Gostyngiad yn nifer yr adeiladau canol trefi na chânt eu defnyddio'n ddigonol nad ydynt yn ysgogi'r economi ar hyn o bryd ac sy'n tanseilio hyder buddsoddwyr.
- Cymorth i wrthdroi amodau sydd wedi arwain at fethiant amlwg yn y farchnad i ailddatblygu asedau canol trefi.
- Lleoli busnesau, sefydliadau a darparwyr gwasanaethau yng nghanol trefi i ategu buddsoddiadau ehangach mewn tai ac adfywio drwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.
- Gostyngiad yn nifer y bobl economaidd anweithgar mewn marchnadoedd llafur lleol gyda gwella lefelau sgiliau drwy gysylltiadau traws-gronfa Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Mwy o le yng nghanol trefi ar gyfer masnachu a gwasanaethau gan greu cyfleoedd cyflogaeth a chynyddu niferoedd.

[3] Llywodraeth Cymru (2018) *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – Cynllun Busnes V14* (heb ei gyhoeddi).
[4] Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu allbwn 'buddsoddiad a ddenwyd' a'i amrywiad o'r targed gwreiddiol.

- Cynyddu niferoedd, ymwelwyr a phreswylwyr a gwariant cysylltiedig.
- Arwain at ddangosydd canlyniadau ERDF o ostyngiad yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau.

1.6 Rhagwelir y bydd y rhaglen, wrth gyflawni'r nodau, yn cyfrannu at ddangosydd canlyniadau ERDF o ostyngiad yn y gyfradd sy'n hawlio budd-daliadau (diweithdra) yn yr Ardaloedd Teithio i'r Gwaith sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd trefol hynny sy'n cael buddsoddiad.

1.7 Disgwylir hefyd i raglen AAGYD gyfrannu, yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, at Themâu Trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, Datblygu Cynaliadwy, a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

1.8 Drwy ddull tri cham, bydd y gwerthusiad yn ceisio casglu ac archwilio sut y cyflawnodd y rhaglen ei nodau, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o AAGYD, a nodi gwersi allweddol sy'n berthnasol i'r rhaglen hon a rhaglenni yn y dyfodol.

1.9 Dyma dri cham y rhaglen:

- **Cyfnod cychwynnol**, o fis Ionawr i fis Medi 2019
- **Cyfnod canol tymor** (y cyfnod hwn), a gynhelir rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020 gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r cynlluniau a ariennir gan AAGYD
- **Cyfnod olaf**, a fydd yn dechrau yng ngwanwyn 2021 ac yn ceisio asesu effaith gyffredinol y rhaglen a nodi unrhyw wersi a ddysgwyd.

1.10 Gosodwyd yr amcanion canlynol ar gyfer y gwerthusiad canol tymor:

- Asesu cynnydd yn erbyn WEFO a dangosyddion lefel-prosiect ar gyfer y rhaglen, yn ogystal â mesurau effaith ansoddol.
- Monitro'r gwaith o gyflawni'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn asesu pa mor agos y cadwyd at y model cyflawni, yn ogystal ag adrodd ar unrhyw newidiadau penodol o ran cyflawni, a'r effaith a'r rhesymeg dros unrhyw newid.
- Ystyried pa mor dda y mae'r prosesau a'r perthnasoedd yn gweithio ac unrhyw wersi a ddysgwyd a allai helpu i gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir.
- Archwilio gyda rhanddeiliaid a buddiolwyr sut mae prosiectau a ariannwyd gan AAGYD wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau rhwng y farchnad lafur leol a buddiolwyr prosiectau, a rhaglenni cyflogadwyedd sy'n derbyn cyllid craidd gan

Llywodraeth Cymru (e.e. y broses gyfeirio gan Gyd-fuddiolwyr ar gyfer cyllid i raglenni cyflogadwyedd a sgiliau ar gyfer pob prosiect sy’n derbyn cyllid AAGYD).

- Monitro cynnydd yn erbyn amcanion Themâu Trawsbynciol WEFO (h.y. Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Threchu Tlodi) a’r iaith Gymraeg.
- Nodi unrhyw effeithiau anfwriadol yn sgil cyflawni rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yng nghanol tymor y prosiect.
- Darparu asesiad rhagarweiniol/dangosol ynghylch a fydd rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yn cael ei chyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

**Dull methodolegol**

1.11 Mae'r gwerthusiad canol tymor wedi cynnwys y dull methodolegol canlynol:

- Cyfarfod cychwynnol gyda'r tîm gwerthuso craidd yn Llywodraeth Cymru.
- Adolygu data monitro a dogfennau ar brosesau sy'n gysylltiedig â rhaglen AAGYD a'r prosiectau a ariannwyd.
- Mapio prosiectau arfaethedig a ariennir gan AAGYD yn erbyn fframwaith gwerthuso prosiectau i nodi dulliau addas o fonitro a gwerthuso pob prosiect a ariennir.
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid gyda 14 o staff o Lywodraeth Cymru, a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo (Microsoft (MS) Teams). Roedd y rhain yn cynnwys pedwar cyfweliad gydag aelodau o dîm rhaglen AAGYD, tri chynrychiolydd o WEFO, a saith cyfweliad gydag aelodau o'r tîm adfywio ehangach.
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid (naill ai drwy gynhadledd fideo neu dros y ffôn) gyda 19 o gynrychiolwyr o'r Cyd-fuddiolwyr sy’n derbyn cyllid drwy raglen AAGYD.

1.12 Cyn dechrau'r gwerthusiad canol tymor, rhagwelwyd y byddai'r cyfnod hwn yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos manwl ar sampl o'r prosiectau a ariannwyd i archwilio, yn fanylach, yr effaith sy'n deillio ohonynt. Roedd oedi yng ngwaith adeiladu cychwynnol y prosiectau, gyda phandemig COVID-19 ar ben hynny, yn golygu nad oedd cynnal ymarferion astudiaethau achos (a fyddai, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi cynnwys cael barn busnesau a thrigolion lleol yn bennaf drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y stryd) yn addas ar hyn o bryd. Felly, mae'r

astudiaethau achos hyn wedi'u gohirio tan gyfnod nesaf y gwerthusiad, gyda'r tymor canol yn hytrach yn cael ei ddefnyddio i nodi'r rhesymeg y tu ôl i'r detholiad a'r dull o ymdrin â'r astudiaethau achos arfaethedig.

1.13 Bydd gweithgareddau ymchwil a gwerthuso sy'n ymwneud ag astudiaethau achos sy'n gysylltiedig â'r prosiectau a ariennir gan AAGYD yn dechrau ddiwedd gwanwyn 2021 ac yn parhau drwy gydol gweddill y rhaglen. Bydd gweithgareddau ymchwil a gwerthuso yn cael eu strwythuro i'w cynnal (fel arfer) tua 6–9 mis ar ôl cwblhau cynlluniau adeiladu. Dewiswyd yr amserlen hon, ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, er mwyn cael amser i gasglu gwybodaeth am gostau adeiladu terfynol (er mwyn gallu mapio gwariant adeiladu) a rhoi cyfle i'r cynlluniau a gwblhawyd gael eu defnyddio. Ceir rhagor o fanylion yn nodi'r dull o ymchwilio a gwerthuso mewn perthynas â phob un o'r prosiectau a ariannwyd yn Atodiad A. Crynhoir y dull isod.

*Teipoleg prosiectau – mapio prosiectau*

1.14 Er mwyn llywio'r dull (o ran manylder a chwmpas) i werthuso prosiectau a ariennir drwy raglen AAGYD, caiff pob prosiect eu mapio ar sail cyfres o ddangosyddion. Nodwyd cyfanswm o naw:

- Lefel y buddsoddiad **heb fod yn AAGYD/ arian cyfatebol wedi'i dargedu** a ddenwyd i ariannu'r prosiect.
- P'un ai a yw'r prosiect wedi'i leoli'n ganolog o fewn (yn hytrach nag ar gyrion) **canol tref**.
- P'un ai a ragwelir y bydd y prosiect yn cael effaith wirioneddol ar **niferoedd** yn y dref (yn enwedig os yw'r prosiect yn cynnwys cynnig sy'n canolbwyntio ar wasanaeth neu'n debygol o gynnwys busnesau a fydd (gyda'i gilydd) yn gyfrifol am lefel sylweddol o gyflogaeth (dros 250 o swyddi) a grëwyd fel rhan o'r prosiect).
- Maint cyfanswm y **buddsoddiad ariannol** yn y prosiect. Defnyddiwyd £5m fel trothwy, a fyddai ar ei ben ei hun o werth cyfyngedig, ond ochr yn ochr â'r nifer o ddangosyddion eraill a amlinellwyd, mae'n rhoi sail resymegol ar gyfer addasu graddau'r monitro a'r gwerthuso ar gyfer pob prosiect.
- P'un ai a yw'r prosiect yn arwain at newid sylweddol yn y 'cynnig' yng nghanol y dref drwy ddarparu **gwasanaethau** ychwanegol/eraill yng **nghanol trefi** (gan fod hyn yn debygol o gynyddu ymwybyddiaeth a barn defnyddwyr ynglŷn â'r prosiect).

- P’un ai a fydd y prosiect yn **denu ymwelwyr** o'r tu hwnt i'r ardal leol, a fydd yn golygu bod angen cofnodi'r rôl y mae'r prosiect wedi'i chwarae wrth ddenu ymwelwyr yno.
- P’un ai a oes cynlluniau i gynnwys **busnesau bach a chanolig (BBaCh)** o fewn yr adnodd a gwblhawyd i gyfiawnhau archwilio'r rôl y mae'r adnodd wedi'i chwarae i annog mewnfuddsoddiad, sicrhau y cedwir mentrau, neu yr hwylusir twf y mentrau a grëwyd.
- **Amlygrwydd** y prosiect yn lleol, naill ai'n weledol neu ar y cyd â'i dreftadaeth leol neu ei werth lleol canfyddedig, a fydd yn penderfynu i ba raddau yr ymgynghorir â thrigolion lleol ynglŷn â'r prosiect.
- Yr **amserlenni** ar gyfer y prosiect, yn benodol y dyddiad cwblhau disgwyliedig, gan gydnabod mai dim ond ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu (yn ddelfrydol o leiaf chwe mis) y gellir asesu effeithiau gweithredol pob prosiect.

Cyflwynir teipoleg y prosiect a grëwyd yn seiliedig ar y dangosyddion hyn yn Atodiad A.

*Haenau prosiect*

1.15 Drwy fapio'r naw dangosydd yn erbyn pob prosiect AAGYD, bu'n bosibl gosod pob prosiect o dan un o dair haen.

- **Prosiectau AAGYD a ariennir gan Haen 1:** prosiectau o faint mwy o fewn y rhaglen yw'r rhain ac yn aml bydd ganddynt rywbeth arbennig o unigryw neu wahanol yn eu cylch. Bydd gan y prosiectau'r potensial i greu effaith leol, ychwanegol a fyddai'n cyfiawnhau ymchwil pellach er mwyn canfod maint yr effaith honno. Ar gyfer y prosiectau hyn, argymhellir **gwerthusiad allanol sy'n benodol i’r prosiect** (ac, yn wir, mae rhai prosiectau eisoes wedi comisiynu un), a fyddai'n cynnwys dulliau o gasglu tystiolaeth yn erbyn y gwahanol ddangosyddion sy'n berthnasol o fewn fframwaith gwerthuso'r prosiect a'r dangosyddion teipoleg (Atodiad A).
- **Haen 2:** er eu bod ar raddfa fwy cymedrol na'r rhai a restrir yn Haen 1, disgwylir i'r prosiectau hyn gael effaith wirioneddol ar eu hardal leol. Er y byddai gwerthusiad allanol sy'n benodol i’r prosiect yn rhoi tystiolaeth a gwybodaeth ddefnyddiol am y prosiect, gellid casglu llawer o hyn drwy ddull astudiaeth achos fel rhan o werthusiad y rhaglen. Felly, mae'r haen hon o brosiectau wedi'i dewis fel **astudiaethau achos ar gyfer y gwerthusiad hwn.**

- **Haen 3:** mae'r prosiectau hyn yn llai o ran maint eto a byddant yn debygol o fod yn gynllun adeiladu symlach gydag effaith fwy cyfyngedig ar yr ardal gyfagos. Gall llawer o'r dystiolaeth i gasglu eu heffaith ychwanegol ddeillio o'r **trefniadau monitro mewnol presennol a'r gweithgareddau gwerthuso atodol ar draws y rhaglen** (ceir rhagor o fanylion am gwmpas y gweithgareddau gwerthuso a gynlluniwyd ar gyfer prosiectau Haen 1 yn Atodiad A).

*Dull astudiaeth achos*

1.16 Ar gyfer yr astudiaethau achos a ddewiswyd, bydd elfennau teipoleg y prosiect a'r fframwaith gwerthuso prosiectau y mae pob prosiect yn cyfrannu atynt yn dylanwadu ar y dull ymchwil arfaethedig. Felly, bydd pob astudiaeth achos (cyflwynir rhestr fer astudiaethau achos yn Atodiad A) yn debygol o gynnwys detholiad o'r dulliau canlynol, yn ogystal â'r dulliau gweithredu arfaethedig ar draws y rhaglen ar gyfer prosiectau AAGYD a amlinellir isod:

- Cyfweliadau ychwanegol â rhanddeiliaid (dim mwy na phump ar gyfer pob astudiaeth achos) gyda'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni a (os yw'n berthnasol) chynnal yr adnodd maes o law er mwyn casglu safbwyntiau ar y prosesau ar gyfer y prosiect ac effaith y prosiect.
- Os bydd prosiectau wedi sefydlu gwasanaethau ychwanegol yng nghanol trefi a bod disgwyl effaith wirioneddol ar niferoedd, bydd y data sydd ar gael ar niferoedd yn cael ei ddadansoddi, a/neu ymgysylltir â detholiad o fasnachwyr lleol (tua 25) a defnyddwyr canol trefi (tua 50) er mwyn casglu eu safbwyntiau ar ôl cwblhau'r prosiectau.
- Os ystyrir bod prosiectau'n amlwg iawn yn lleol (yn amodol ar gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol), ymgysylltir â defnyddwyr canol tref (tua 50) er mwyn casglu eu safbwyntiau ar y prosiectau ar ôl iddynt gael eu cwblhau. (Os yw'r prosiectau wedi effeithio ar niferoedd, bydd y rhain yr un rhai â'r defnyddwyr canol tref (tua 50.)
- Os bydd prosiectau a ddewiswyd fel astudiaethau achos yn rhagweld rôl fel atyniad i ymwelwyr, byddwn yn ceisio dadansoddi unrhyw ddata ymwelwyr a gasglwyd ar gyfer eu chwe mis cyntaf o weithredu er mwyn helpu i fesur yr effaith sy'n deillio o'r gweithgaredd hwn (efallai bydd angen ei addasu mewn ymateb i gyfyngiadau ymwelwyr sy'n gysylltiedig â COVID-19).

*Ymchwil ar gyfer pob prosiect – ar draws y rhaglen*

1.17 Ar gyfer **pob** prosiect, cyflawnir y tasgau ymchwil canlynol:

- Cyfweliadau â rhanddeiliaid gyda Chyd-fuddiolwyr yng nghyfnodau canol tymor a chamau olaf y gwerthusiad er mwyn deall cynnydd ac effaith pob prosiect.
- Dadansoddiad o wariant sy'n gysylltiedig ag adeiladu (os yw ar gael) er mwyn gallu mapio'r effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a'u cyfuno ar gyfer y rhaglen.
- Arolwg o fuddiolwyr pob prosiect (BBaChau a ddefnyddir) lle mae'r prosiect hwnnw wedi bod yn weithredol am o leiaf chwe mis er mwyn canfod y rôl (os o gwbl) y mae'r prosiect wedi'i chwarae i ddenu/cadw a galluogi'r BBaCh hwnnw i ehangu.

1.18 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro yn y ffordd ganlynol:

- Mae **Adran 2** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi perthnasol (sydd wedi dod i'r amlwg ers cwblhau'r adroddiad cychwynnol) a'r cyd-destun sy'n gysylltiedig â rhaglen AAGYD.
- Mae **Adran 3** yn adolygu'r wybodaeth reoli a monitro ar gyfer y rhaglen er mwyn darparu ymdeimlad o gynnydd ar gyfer pob un o'r prosiectau a ariennir.
- Mae **Adran 4** yn rhoi adborth gan randdeiliaid ar gynnydd rhaglen AAGYD.
- Mae **Adran 5** yn adolygu'r dulliau a ddefnyddiwyd gan brosiectau i hyrwyddo Themâu Trawsbynciol.
- Mae **Adran 6** yn rhoi crynodeb o'r myfyrdodau ar y rhaglen hyd yma.

# 2. Cyd - destun

### Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

2.1 Yn 2014, gwahoddodd WEFO dîm adfywio Llywodraeth Cymru i gynnig rhaglen a fyddai'n darparu ymbarél ar gyfer nifer o brosiectau adfywio ffisegol sy'n ceisio cyllid drwy raglen ERDF. Gwnaed y cais ar y sail resymegol nad yw'r amser a gymerir i ddatblygu un prosiect i'w gymeradwyo yn gymesur â swm y cyllid y gofynnwyd amdano felly, roedd caniatáu i un rhaglen ymdrin â swm mwy o arian yn ffordd fwy effeithlon o gyflawni'r gofyniad hwn.

2.2 Ni sefydlwyd tîm Adfywio Llywodraeth Cymru fel 'corff cyfryngol'; o ganlyniad, nid oedd ganddynt y grym i reoli a gweithredu grantiau ERDF. O'r herwydd, roedd rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu trefniadau lle byddai angen rhestru prosiectau unigol yn y cynnig ar gyfer rhaglen AAGYD ac, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan raglen AAGYD, byddai cynlluniau busnes prosiect unigol yn cael eu cyflwyno i gael sêl bendith WEFO cyn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Gartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru (yr isadran yn Llywodraeth Cymru y mae'r tîm adfywio'n rhan ohoni).

2.3 Roedd y rhaglen, oedd yn defnyddio'r ymadrodd "defnyddiwch nhw neu collwch nhw" ar y dechrau, yn rhoi pwyslais ar weithio gyda 'darpar ddefnyddwyr terfynol i i wneud defnydd economaidd lawn o adeiladau sydd ar hyn o bryd yn wag, yn adfeiliedig neu na chânt eu defnyddio'n ddigonol'[5], gyda'r nod o:

- Gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau lleol ac ysgogi datblygu economaidd; a
- Chynyddu mynediad i'r farchnad lafur a lleihau achosion o allgau.

2.4 Disgrifiodd yr adroddiad cwmpasu cychwynnol ar gyfer y prosiect dair elfen o raglen AAGYD:

- **Adeiladau a safleoedd a dargedwyd** – Byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi a thargedu adeiladau sydd ar hyn o bryd yn wag, yn adfeiliedig neu na chânt eu defnyddio'n ddigonol, gyda'r nod o wneud defnydd economaidd llawn ohonynt drachefn.
- **Defnyddwyr terfynol a chynaliadwyedd prosiectau** – Byddai partneriaid awdurdodau lleol yn gweithio tuag at fynd ati'n gynnar i nodi darparwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr terfynol a allai ddefnyddio neu ddarparu

[5] Llywodraeth Cymru (2015) *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – Dogfen Gwmpasu V1 – 140915* (heb ei chyhoeddi).

gwasanaethau canol trefi o'r adeiladau a dargedwyd. Byddai angen i'r rhain ategu'r cynnig presennol yng nghanol trefi, ond y bwriad yw y gallai'r rhain ganolbwyntio ar ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol, darpariaeth gofal plant, sgiliau, hyfforddiant, mentrau sector preifat a'r trydydd sector, a chyfleoedd cyflogaeth masnachol eraill. Gellid ystyried cymysgedd o ddefnyddiau lle mae adeiladau o faint sylweddol.

- **Buddiolwyr prosiectau** – Byddai partneriaid awdurdodau lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a defnyddwyr adeiladu i dargedu a chynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd wedi'u dadleoli neu nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad gyflogaeth.[6]

**Y broses flaenoriaethu ranbarthol**

2.5 Ym mis Mai 2015, gofynnwyd i awdurdodau lleol ym mhob un o bedair ardal ranbarthol Cymru — De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru — flaenoriaethu prosiectau ar gyfer rhaglen AAGYD drwy Fyrddau Rhanbarthol. Nod y dull hwn oedd caniatáu i bob rhanbarth flaenoriaethu prosiectau ar sail fwy lleol a chyflawni yn unol â'u hamcanion strategol a pholisi eu hunain.

2.6 Ymhlith awdurdodau lleol, cymysg oedd y farn am y broses o flaenoriaethu rhanbarthol ymysg cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, a chanfuwyd bod cydweithredu rhanbarthol yn aneffeithiol mewn llawer o achosion. Croesawodd yr awdurdodau lleol y canllawiau a ddarparwyd i helpu i lunio'r prosiectau yr oeddent yn eu cyflwyno. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod nifer y partneriaid cymwys yn y rhanbarth hwnnw a chryfder presennol partneriaethau a chydweithredu ymysg yr awdurdodau hynny yn dylanwadu ar y broses o flaenoriaethu'r prosiectau ym mhob rhanbarth.

*Adolygiad o gynlluniau a flaenoriaethwyd yn rhanbarthol*

2.7 Ar ôl derbyn y cynlluniau blaenoriaeth ar gyfer pob rhanbarth, aeth tîm rhaglen AAGYD ati i adolygu'r rhain er mwyn asesu eu cymhwysedd. Ar yr adeg hon daeth yn amlwg nad oedd nifer sylweddol o gynlluniau a flaenoriaethwyd yn gymwys ar gyfer rhaglen AAGYD.

2.8 Ymhlith awdurdodau lleol roedd canfyddiad bod nifer yr achosion o brosiectau anghymwys yn adlewyrchu'r amserlenni tynn ar gyfer eu cyflwyno a diffyg eglurder ynglŷn â rhai o'r meini prawf cymhwysedd. Mae'n bosibl bod yr amserlen dynn a'r

[6] Ibid.

cwmpas uchelgeisiol ar gyfer y rhaglen AAGYD wedi arwain at fynd ar drywydd rhai o'r cynlluniau mwyaf uchelgeisiol; fodd bynnag, mae'n bosibl bod cyfleoedd i brosiectau gydweithio a rhannu dysgu ac arfer gorau, a hwyluswyd gan dîm adfywio Llywodraeth Cymru, wedi helpu'r broses ddethol gychwynnol (ac wedi dylanwadu ar hwyluso’r broses o gymeradwyo cynlluniau busnes yn ddiweddarach yn y rhaglen).

**Cymeradwyaeth ariannol ar gyfer AAGYD**

2.9 Rhwng 2015 a Chwefror 2017 bu sawl newid gweinidogol, a dylanwadodd hyn yn ei dro, ar gyfeiriad a ffocws rhaglen AAGYD. Arweiniodd hyn at rywfaint o ansicrwydd ymhlith ymgeiswyr ynghylch cysondeb ac eglurder ffocws a chymhwysedd ar gyfer y rhaglen, ac at oedi cyn sicrhau cymeradwyaeth ariannol a chychwyn y gwaith.

2.10 Deellir (gan randdeiliaid) mai un o’r ffactorau a ddylanwadodd ymhellach ar yr oedi cyn cymeradwyo cyllid ar gyfer y rhaglen oedd Refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016. Yn dilyn y bleidlais i adael yr UE roedd rhywfaint o fwlch tra bod y model polisi a chyllido ar gyfer gweddill y cylch presennol o Gronfeydd Strwythurol yn cael ei gytuno.

2.11 Gyda'i gilydd, felly, cyfrannodd cyfres o ffactorau nas rhagwelwyd at oedi sylweddol o ran cymeradwyo cyllid ar gyfer rhaglen AAGYD. Yn y pen draw, sicrhaodd y rhaglen y gymeradwyaeth honno ym mis Chwefror 2017, 18 mis ar ôl dechrau'r broses flaenoriaethu ranbarthol.

**Cynlluniau busnes a Chyd-fuddiolwyr**

2.12 Ar ôl cymeradwyo'r rhaglen, roedd tîm rhaglen AAGYD wedyn yn gallu cefnogi darpar Gyd-fuddiolwyr gyda cheisiadau am gynlluniau busnes ar gyfer cyllid AAGYD. Gan nad oedd tîm adfywio Llywodraeth Cymru wedi'i ddynodi'n gorff cyfryngol, i gael buddsoddiad ERDF, roedd angen i bob safle a flaenoriaethwyd yn rhanbarthol sicrhau cymeradwyaeth i'w cynllun busnes gan WEFO.


2.13 Un o'r heriau cychwynnol a wynebwyd gan ymgeiswyr mewn perthynas â'r rhaglen oedd eu bod yn teimlo eu bod wedi’u clymu gan elfennau allweddol (ac, yn fwyaf cyffredin, amcangyfrif o'r costau) a nodwyd yn flaenorol yng nghynlluniau amlinellol pob prosiect yr oeddent wedi'u cynhyrchu ar gyfer y broses flaenoriaethu o leiaf 18 mis ynghynt. Yn y cyfamser, ac yna fel rhan o waith archwiliadol pellach oedd yn gysylltiedig â'u cynlluniau blaenoriaeth, roedd achosion lle'r oedd cwmpas y cynlluniau a'r costau cysylltiedig yn amrywio. Lle'r oedd amcangyfrif o'r costau adeiladu wedi codi, dylanwadodd hyn ar raddfa'r arian Ewropeaidd a ddymunwyd ar

gyfer pob cynllun; fodd bynnag, roedd dyraniadau wedi'u pennu i'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau amlinellol ac roedd yn ofynnol ceisio arian cyfatebol ychwanegol i fynd i'r afael â'r diffyg a oedd wedi codi.

*Proses cymeradwyo cynllun busnes*

2.14 Dangosir y broses o gael cymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau busnes yn Ffigur 2.1 isod. Mae'n dangos y broses aml-haen o gymeradwyo cynlluniau busnes.

**Ffigur 2.1: Proses Cymeradwyo Prosiect AAGYD**[7]




[7] Tîm Rhaglen AAGYD – Fersiwn Hydref 2019.

2.15 Roedd yr heriau eraill a wynebwyd gan yr ymgeiswyr yn cynnwys cyfyngiadau arian cyfatebol wedi'i dargedu Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â phroffil blynyddol gwariant (proses safonol gan Lywodraeth Cymru y mae'n rhaid i bob grant gadw ati), a oedd yn heriol i gynllunio ar ei chyfer. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd yn ceisio cyllid o ffynonellau eraill (e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyngor y Celfyddydau) ac, felly, roeddent yn wynebu'r her a'r baich adnoddau ychwanegol o gwblhau ceisiadau cynlluniau busnes neu ariannu lluosog a bodloni terfynau amser ychwanegol ar gyfer gwariant.

**Arfarnu cynlluniau busnes**

2.16 Cymerodd y broses arfarnu cynlluniau busnes fwy o amser nag yr oedd ymgeiswyr wedi'i ragweld oherwydd cymhlethdod (angenrheidiol) a'r ffaith bod y gofynion cynllunio busnes yn gynhwysfawr ynghyd ag adnoddau cyfyngedig ar y pryd o fewn tîm AAGYD. Ychwanegwyd at yr oedi gan y ffaith nad oedd rhai cynlluniau busnes wedi'u llunio'n ddigonol i'w cyflwyno neu eu bod yn gysylltiedig yn y pen draw â chynlluniau nad oeddent yn briodol ar gyfer rhaglen AAGYD. Arweiniodd hyn at dreulio amser ar arfarnu prosiectau a wrthodwyd yn y pen draw ar gyfer AAGYD y gellid bod wedi'i neilltuo i geisiadau eraill.

2.17 Roedd dwy haen i'r broses arfarnu ac ar ôl i dîm rhaglen AAGYD gwblhau eu gwerthusiad, rhannwyd pob cynllun busnes â WEFO i'w gwerthuso ymhellach. Roedd y dull aml-gam yn un rhwystredig yn ôl ymgeiswyr, yn enwedig oherwydd y protocol cyfathrebu a sefydlwyd ar gyfer y rhaglen. Gan nad oedd y tîm adfywio'n gorff cyfryngol, roeddent yn gweithredu fel y prif fuddiolwr, gydag ymgeiswyr wedi'u dynodi'n Gyd-fuddiolwyr. Roedd hyn yn golygu y byddai angen i unrhyw sylwadau neu ymholiadau gael eu cyflwyno gan y prif fuddiolwr ar ran y Cyd-fuddiolwyr. O ganlyniad, nid oedd y Cyd-fuddiolwyr yn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â WEFO ynghylch unrhyw faterion a godwyd drwy'r broses arfarnu, proses yr oedd nifer o Gyd-fuddiolwyr (yn enwedig awdurdodau lleol) wedi arfer â hi wrth gymryd rhan mewn rhaglenni eraill a ariannwyd gan yr UE.

*Cymeradwyo*

2.18 Unwaith y mae WEFO yn fodlon ar gynllun busnes y prosiect, caiff cytundeb y prosiect ei gyfleu i dîm AAGYD. Os dangosir gwerth am arian, gall WEFO roi cymeradwyaeth lawn; fodd bynnag, os nad yw prosiect yn ddigon datblygedig, gellir rhoi cytundeb dros dro i brosiect - ei gymeradwyo mewn egwyddor - nes bod y

prosiect wedi cyrraedd datblygiad Cam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), lle gellir asesu'r gwerth am arian.

2.19 Yna mae cam pellach yn y broses sy'n gysylltiedig â sicrhau cymeradwyaeth gan y Panel Buddsoddi Adfywio Cenedlaethol. Mae ffocws gwahanol yn y ddwy broses gymeradwyo: mae WEFO yn canolbwyntio ar werth am arian, cymhwysedd, a chyflawni allbynnau allweddol, tra bod Panel Buddsoddi Adfywio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar adfywio strategol a chynaliadwy sy'n arwain at effaith economaidd. O safbwynt y Cyd-fuddiolwyr, fodd bynnag, roedd gwerth ychwanegol yr elfen hon yn aneglur ac yn cael ei ystyried yn gam ychwanegol yn yr hyn a ystyriwyd eisoes yn broses hirfaith a braidd yn gymhleth.

**Crynodeb o’r prif fyfyrdodau o'r cyfnod cychwynnol**

2.20 Ymdrinnir â'r cyd-destun a’r prosesau sy'n gysylltiedig â rhaglen AAGYD yn fanylach o fewn cam cychwynnol y gwerthusiad, a arweiniodd yr adroddiad at nifer o fyfyrdodau allweddol sy'n berthnasol i weddill y gwerthusiad:

- Mae rhaglen AAGYD yn cael ei hedmygu'n eang am ei huchelgais a'i dyhead, gan gyd-fynd yn strategol ac yn agos â pholisi Llywodraeth Cymru a thargedu safleoedd amlwg, heriol. Mae nifer o'r safleoedd hyn yn byrth allweddol neu'n ganolbwynt i drefi. Bu’r rhain ar un adeg yn destun balchder lleol gyda chysylltiad sentimentalaidd, ond yn sgil dirywio a dadfeilio pellach maent bellach yn cyfyngu’n sylweddol ar fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.
- Llwyddodd y gwaith o flaenoriaethu cynlluniau'n rhanbarthol i raddau amrywiol. Er bod rhanddeiliaid yn tueddu i gefnogi'r egwyddor o flaenoriaethu rhanbarthol, cymysg oedd y farn ymysg cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar y broses a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu. Roedd nifer sylweddol o brosiectau a gyflwynwyd drwy'r broses yn anghymwys, ac roedd awdurdodau lleol yn priodoli hynny i'r amserlenni tynn ar gyfer eu cyflwyno. Dywedodd rhai awdurdodau lleol mai dim ond mater o wythnosau oedd ganddynt i nodi cynlluniau, eu dosbarthu i awdurdodau eraill yn y rhanbarth ac yna eu blaenoriaethu. Wrth adolygu'r ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r broses hon, fodd bynnag, mae'n amlwg bod y broses flaenoriaethu wedi cymryd sawl mis i rai rhanbarthau. Roedd y dull o flaenoriaethu rhanbarthol hefyd yn wahanol ym mhob rhanbarth (er i ganllawiau gael eu darparu ar y drefn sgorio a'r dull o flaenoriaethu rhanbarthol). Gan mai dim ond effaith leol fyddai gan y rhan fwyaf o gynlluniau a bod y cyllid rhanbarthol a neilltuir ar gyfer rhaglen AAGYD yn

dybiannol, mae'r rhesymeg dros y broses flaenoriaethu ranbarthol, y tu hwnt i hybu cydweithredu rhanbarthol, yn aneglur.

- Roedd y prosesau'n gysylltiedig â gwneud cais am gyllid yn gymhleth, Roedd dau gam i'r broses arfarnu ac nid oedd llawer o'r cynigion wedi datblygu'n ddigonol pan gyflwynwyd nhw gyntaf i'w gwerthuso. Ychwanegodd hyn at yr oedi cychwynnol gyda'r rhaglen, a olygai fod y cynnydd a wnaed yn y cyfnod cychwynnol yn arafach na'r disgwyl.
- Ymhlith y Cyd-fuddiolwyr, byddai'n well gan bawb fod wedi delio'n uniongyrchol â WEFO ochr yn ochr â chefnogaeth gan dîm AAGYD. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn adlewyrchu model cyflawni WEFO, gan fod WEFO yn cytuno â'r CE na fyddai'n rheoli cynllun grant yn uniongyrchol.
- Yng nghyd-destun lleihau adnoddau o fewn awdurdodau lleol yn benodol, mae gan Gyd-fuddiolwyr awydd cyfyngedig ac amrywiol iawn (yn dibynnu ar argaeledd adnoddau) am risg sy'n gysylltiedig â chynlluniau adfywio. Mae hyn yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn amharod i fentro gyda rhaglenni adfywio os ystyrir bod y risgiau'n rhy fawr ac y gallent arwain at ardaloedd heb gynlluniau adfywio (a allai golli allan ar fuddsoddiad adfywio'r sector cyhoeddus, er gwaethaf yr angen neu'r cyfle a allai fodoli yno).
- Ar adeg y gwerthusiad cychwynnol (hydref 2019), roedd risg glir y byddai'r rhaglen yn methu â gwario'r cyllid a ddyrannwyd o fewn yr amserlen benodol, gyda llawer o'r Cyd-fuddiolwyr yn aros am sêl bendith ar gyfer eu cynlluniau busnes a nifer fach o gynlluniau busnes yn dal heb eu gorffen.

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am bolisi**

2.21 Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull newydd 'Canol Trefi'n Gyntaf' newydd gyda phwyslais ar leoli gwasanaethau ac adeiladau yng nghanol trefi lle bynnag y bo modd. Drwy'r dull hwn, mae'r sector cyhoeddus yn cael ei annog i leoli swyddfeydd, cyfleusterau a gwasanaethau yng nghanol trefi fel canolbwynt lleol i gynyddu niferoedd a chreu neu gynnal bywiogrwydd.

2.22 Er mwyn cefnogi'r dull hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (o dan ymbarél Trawsnewid Trefi) fuddsoddiad o:

- £36 miliwn i brosiectau ar gyfer adfywio canol trefi (trwy'r gronfa Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu), gan ymestyn ein rhaglen gyfalaf bresennol am flwyddyn ychwanegol. Rydym yn rhagweld cyfanswm o bron i £58 miliwn o fuddsoddiad rhwng popeth.
- £13.6 miliwn i fynd i'r afael ag adeiladau gwag a dadfeiliedig, a thir diffaith. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol gymryd camau i orfodi gwneud defnydd o adeiladau a thir gwag drachefn.
- £2 miliwn i drefi'r arfordir i gefnogi prosiectau â gwerth disgwyliedig o £3 miliwn a fydd yn cyfrannu at adfywio canol tref / stryd fawr.
- £10 miliwn o gyllid ychwanegol i'r Cynllun Benthyciadau Canol Trefi, i roi cyfanswm o £41.6 miliwn i'r cynllun sy'n helpu i wneud defnydd newydd o adeiladau gwag, neu rai na chânt eu defnyddio'n ddigonol, yng nghanol trefi
- £5 miliwn o gyllid ar gyfer seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth yng nghanol trefi. Bydd hwn yn helpu prosiectau gwyrddu a fydd o fudd i'r amgylchedd ac yn gwneud canol trefi'n lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw.

*COVID-19*

2.23 Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddwyd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf mewn ymateb i bandemig COVID-19 gan Lywodraeth y DU[8]. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i holl aelwydydd y DU aros gartref a pheidio â chymysgu ag unigolion y tu allan i'w cartref eu hunain am gyfnod amhenodol ar y pryd, ac y dylai pob busnes manwerthu a lletygarwch nad yw'n hanfodol gau. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU wedyn y dylai gwaith adeiladu barhau pe gallai ddilyn canllawiau iechyd y cyhoedd a'r diwydiant ynghylch cadw pellter cymdeithasol, gyda chanllawiau dilynol yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill[9]. O ganlyniad, yn achos y safleoedd adeiladu a gaeodd, dim ond am ychydig wythnosau y bu'r rhan fwyaf ohonynt ar gau; fodd bynnag, mewn llawer o achosion wrth ailddechrau eu rhaglenni adeiladu, gwnaeth llawer o safleoedd hynny gyda nifer llai o staff er mwyn sicrhau y gellid cadw pellter cymdeithasol.

[8] Gweler Datganiad y Prif Weinidog ar coronafeirws (COVID-19): 23 Mawrth 2020 am fanylion llawn y cyhoeddiad.
[9] Gweler Canllawiau Llywodraeth Cymru ar weithleoedd diogel mewn perthynas â COVID-19: 7 Ebrill 2020 am fanylion llawn.

2.24 Yn dilyn hynny gorfodwyd 'cyfnod atal byr' yng Nghymru rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd 2020. Unwaith eto, caeodd yr holl fusnesau manwerthu a lletygarwch nad oedd yn hanfodol. Dechreuodd cyfyngiadau symud pellach ar 20 Rhagfyr 2020.

2.25 Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi cael effaith sylweddol ar ganol trefi, gyda dros 170,000 o swyddi ledled y DU wedi'u colli yn y sector manwerthu yn 2020. At hynny, maent wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn gweithio gartref a chynnydd cysylltiedig yn y ddibyniaeth ar dechnoleg ddigidol ar gyfer cyfathrebu. Ym mis Gorffennaf 2020, roedd ychydig dros 40 y cant o oedolion economaidd weithgar yng Nghymru yn gwneud rhywfaint o'u gwaith gartref[10], o'i gymharu â llai na 15 y cant a ddywedodd eu bod yn gweithio'n bennaf o'u cartref eu hunain[11] rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2018[12]. Wrth i'r rhaglen frechu gael ei chyflwyno a chyfyngiadau cymdeithasol gael eu llacio, rhagwelir y bydd llawer o weithwyr yn dychwelyd i'w gweithleoedd ond y bydd cyfnodau o weithio gartref yn parhau'n llawer mwy cyffredin ar draws yr economi o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig. Amser a ddengys i ba raddau y bydd hyn yn effeithio ar y galw am swyddfeydd ac ar gyfer rhai o'r safleoedd a ariennir drwy raglen AAGYD.

2.26 Yn dilyn yr achosion o bandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ymhlith llu o fesurau i gefnogi'r economi, y byddai hyd at £5.3m o'r rhaglen Trawsnewid Trefi yn cael ei ddefnyddio i ariannu addasiadau i ganol trefi i gefnogi masnachwyr a gwella diogelwch mewn ymateb i'r coronafeirws. Yn y cyfamser, bydd £3.7 miliwn o gyllid Tasglu'r Cymoedd yn cael ei fuddsoddi i wella canol trefi bach yn rhanbarth y Cymoedd.

---

[10] SYG (2020), dyddiad rhyddhau 8fed Gorffennaf 2020.
[11] Neu o'r un safle neu adeilad neu wahanol leoedd gyda'r cartref fel prif leoliad.
[12] UDA (2018) *Arolwg o'r Llafurlu – Gweithwyr cartref a gweithwyr eraill yn ôl rhanbarthau'r DU 2018.*

# 3. Cynnydd

3.1 Arweiniodd oedi yng nghamau cynnar rhaglen AAGYD at ailbroffilio nifer o brosiectau; fodd bynnag, adeiladwyd momentwm yng ngwanwyn 2019 a chadwyd y momentwm hwnnw nes i Covid-19 daro ym mis Mawrth 2020. Wrth i brosiectau symud ymlaen tuag at RIBA Cam 3 a sicrhau cymeradwyaeth derfynol, mewn sawl achos, nodwyd heriau fu’n amhosibl eu datrys ac sydd, yn y pen draw, wedi arwain at dynnu prosiectau’n ôl neu eu trosglwyddo i Gyd-fuddiolwr arall (dinas a sir Abertawe yn y ddau achos). Trafodir y rhesymau dros dynnu prosiectau'n ôl a’u trosglwyddo yn adran 4.

3.2 O'r 22 prosiect sy'n weddill, mae 13 wedi'u cymeradwyo'n llawn, mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar naw, ac mae dau wedi'u cwblhau ac yn cael eu defnyddio’n rhannol o leiaf (gweler Tabl 3.1 isod).

**Tabl 3.1: Statws Prosiect AAGYD**[13]

| Teitl y Prosiect | Statws – Awst 2019 | Statws – Hydref 2020 (Cymeradwywyd yn Llawn oni nodir) |
|---|---|---|
| Y Terminws | Cymeradwywyd – Llawn | Cwblhawyd y Gwaith Adeiladu – Defnydd Llawn |
| Neuadd Farchnad Caergybi | Cymeradwywyd – Llawn | Cwblhawyd y Gwaith Adeiladu – Defnydd Rhannol |
| Ailddatblygu Dyffryn Taf | Cymeradwywyd – Llawn | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau yn hydref 2020 |
| 7 Ffordd Abergele | Cymeradwywyd – Llawn | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau yn hydref 2020 |
| 10 The Circle | Cymeradwywyd – Llawn | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau yn hydref 2020 |
| Costigan’s Rhyl | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau yn hydref 2020 |
| Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned | Cymeradwywyd – Llawn | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau ym mis Mawrth 2021 |
| The Plaza ETC | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau ym mis Gorffennaf 2021 |
| Neuadd y Dref Maesteg | Cymeradwywyd – Llawn | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau ym mis Mawrth 2022 |
| 8 Wind Street | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau ym mis Mawrth 2022 |
| Neuadd Farchnad Llandeilo | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Dechrau Adeiladu – Rhagwelir Cwblhau ym mis Mehefin 2022 |

[13] Gwybodaeth Fonitro AAGYD – Awst 2019 a 30 Hydref 2020.

| Teitl y Prosiect | Statws – Awst 2019 | Statws – Hydref 2020 (Cymeradwywyd yn Llawn oni nodir) |
|---|---|---|
| Quay Stores | Cynigiwyd – [2] ar Waith | Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Rhagfyr 2021 |
| Theatr y Palas | Arfaethedig – [1] Drafft | Adeiladu Eto i Ddechrau – Disgwylir Cwblhau ym mis Medi 2022 |
| Neuadd Farchnad Aberteifi | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Dechrau Adeiladu – Disgwylir r Cwblhau ym mis Rhagfyr 2021 |
| Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines y Rhyl | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Rhagfyr 2021 |
| Swyddfa Bost y Rhyl – Hyb Cymunedol | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Rhagfyr 2021 |
| Cei Cambrian (Cardigan Mash) | Cynigiwyd – [2] ar Waith | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Rhagfyr 2021 |
| Neuadd Albert | Arfaethedig – [1] Drafft | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Mehefin 2022 |
| Adeilad Ocky White | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Gorffennaf 2022 |
| Ailddatblygu YMCA | Cynigiwyd – [3] Cynnydd sylweddol | Cymeradwywyd mewn Egwyddor. Gwaith adeiladu heb Ddechrau eto – Disgwylir Cwblhau ym mis Hydref 2022 |
| Hen Adeilad British Home Stores[14] | Cynigiwyd – [2] ar Waith | Cyd-fuddiolwr gwreiddiol wedi tynnu'n ôl. Cyngor Sir Abertawe yn Gyd-fuddiolwr. Disgwylir y Cynllun Busnes yn Nhachwedd 21. Rhagweld Cwblhau ym mis Hydref. 22 |
| Stiwdios Heol Alexandra (Stiwdios GOFOD, Tŷ Dylan Thomas)[15] | Cynigiwyd – [2] ar Waith | Cyd-fuddiolwr gwreiddiol wedi tynnu'n ôl. Cyngor Sir Abertawe yn Gyd-fuddiolwr. Disgwylir y Cynllun Busnes ym mis Rhagfyr 2020. Disgwylir Cwblhau ym mis Medi. 22 |
| Cam 5C Parc Busnes Caerffili | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Cynllun wedi'i dynnu'n ôl |
| Siambrau St Oswald (6 Heol yr Orsaf) | Cymeradwywyd – Mewn Egwyddor | Cynllun wedi'i dynnu'n ôl |
| Theatr Elli – Calon | Cynigiwyd – [2] ar Waith | Cynllun wedi'i dynnu'n ôl |
| Adeilad Orchard, Ffordd y Brenin | Cynigiwyd – [2] ar Waith | Cynllun wedi'i dynnu'n ôl |
| **Cyfanswm yr Arian a Gymeradwywyd/Arfaethedig** | **26** | **22** |

3.3 Mae Ffigur 3.1 isod yn mapio dosbarthiad daearyddol y prosiectau sy'n weddill yn rhaglen AAGYD. Wrth adolygu dosbarthiad daearyddol prosiectau, mae'n bwysig ailddatgan mai dim ond yn Rhaglen Weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y


[14] Ym mis Rhagfyr 2020, cyfeirir at y prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe fel Hyb Canol y Ddinas
[15] Cyfeirir at y prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe fel Stiwdios Heol Alexandra o fis Tachwedd 2020.

mae AAGYD ar gael. Ar ôl dechrau'r gwaith, neilltuwyd dyraniad tybiannol o arian i bob rhanbarth: £20m yr un i Ogledd Cymru, De Orllewin Cymru, a De Ddwyrain Cymru, a £3m i Ganolbarth Cymru. Er bod De-orllewin Cymru, De-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru wedi gofyn am lawer mwy na'r dyraniad tybiannol (ac yn Ne Orllewin Cymru fwy na dwbl yr hyn a ddyrannwyd), yng Ngogledd Cymru methodd y prosiectau a gyflwynwyd â defnyddio'r dyraniad cyfan (ac roedd hyn cyn y gyfradd sylweddol a fyddai'n gadael y prosiect cyn dechrau fel rhan o'r broses arfarnu a chymeradwyo).

3.4 Mae'r ffigur yn dangos rhywfaint o glystyru o amgylch cytrefi trefol De Orllewin Cymru, yn enwedig o amgylch Bae Abertawe (Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot). Er y bydd lefelau'r boblogaeth (a nifer yr achosion cysylltiedig o ganol trefi) a lefelau'r angen a'r cyfle (o ran safleoedd posibl) yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ardal gymwys, mae'r dosbarthiad yn awgrymu dylanwadau ychwanegol ar y duedd i ymgysylltu â'r gwaith. Rhoddir sylw pellach i'r rhain yn adran 4 o'r adroddiad.

**Ffigur 3.1: Dosbarthiad Daearyddol Prosiectau AAGYD**

| Rhif | Prosiect |
|---|---|
| 1 | Neuadd Farchnad Caergybi |
| 2 | 7 Ffordd Abergele |
| 3 | Costigans |
| 4 | 10 The Circle |
| 5 | Neuadd y Dref Maesteg |
| 6 | Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned |
| 7 | Ailddatblygu Dyffryn Taf |
| 8 | Neuadd Farchnad Llandeilo |
| 9 | 8 Wind Street |
| 10 | The Plaza ETC |
| 11 | Y Terminws |
| 12 | Adeiladau'r Frenhines y Rhyl |
| 13 | Cei Cambrian (Cardigan Mash) |
| 14 | Neuadd Farchnad Aberteifi |
| 15 | Swyddfa Bost y Rhyl – Hyb Cymunedol |
| 16 | Ailddatblygu YMCA |
| 17 | Adeilad Ocky White |
| 18 | Quay Stores |
| 19 | Neuadd Albert |
| 20 | Hen Adeilad British Home Stores[16] |
| 21 | Theatr y Palas |
| 22 | Stiwdios Ffordd Alexandra[17] |




3.5 Mae Tabl 3.2 isod yn cyflwyno trosolwg o'r pecyn ariannu disgwyliedig ar gyfer pob un o'r prosiectau AAGYD sy'n weddill. Mae'n dangos yr amrywiaeth eang o ran maint y prosiectau (o £757,000 ar gyfer Wind Street i bron £40m ar gyfer ailddatblygu Dyffryn Taf). At hynny, mae'n dangos y rhagwelir y bydd y rhaglen yn denu tua £35.2m mewn cyllid ERDF, os bydd pob prosiect yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, gydag ychydig o dan £120m yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau AAGYD. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymyrraeth ERDF o 29.6 y cant.

3.6 Yn seiliedig ar y dyraniad yn Nhabl 3.2 isod, mae'n ymddangos bod cyfran fach o'r arian sy'n weddill ar gyfer rhaglen AAGYD tua £2.8m. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid hyn yn mynd ar gostau staff tîm rhaglen AAGYD, gan adael ychydig dros £1m mewn cyllid ERDF heb ei ddyrannu.

[16] Ym mis Rhagfyr 2020, cyfeirir at y prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe fel Hyb Canol y Ddinas

[17] Arferai'r prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe gael ei alw'n Stiwdios GOFOD, Tŷ Dylan Thomas.


**Tabl 3.2: Dyrannu Cyllid (Cyfanswm y Pecyn) yn ôl Prosiect (£)**[18]

| Teitl y Prosiect | Arian Cyfatebol wedi'i Dargedu | ERDF | LIC arall | Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Neuadd Farchnad Caergybi | 245,471 | 572,764 | 862,000 | 2,575,000 | 4,255,235 |
| 7 Ffordd Abergele | 183,000 | 427,000 | 0 | 235,000 | 845,000 |
| Costigans | 62,400 | 249,600 | 0 | 168,000 | 480,000 |
| 10 The Circle | 42,000 | 100,000 | 20,000 | 358,473 | 520,473 |
| Neuadd y Dref Maesteg | 858,000 | 2,001,990 | 650,000 | 4,012,047 | 7,522,037 |
| Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned | 214,330 | 500,103 | 0 | 178,608 | 893,041 |
| Ailddatblygu Dyffryn Taf | 3,000,000 | 7,000,000 | 300,000 | 29,316,000 | 39,616,000 |
| Neuadd Farchnad Llandeilo | 600,000 | 800,000 | 0 | 2,562,600 | 3,962,600 |
| 8 Wind Street | 177,050 | 315,000 | 0 | 264,950 | 757,000 |
| The Plaza ETC | 2,000,000 | 3,457,950 | 0 | 1,050,050 | 6,508,000 |
| Y Terminws | 469,535 | 1,062,765 | 0 | 400,000 | 1,932,300 |
| Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines y Rhyl | 2,500,000 | 2,500,000 | 0 | 9,097,531 | 14,097,531 |
| Cei Cambrian (Cardigan Mash) | 162,000 | 500,000 | 0 | 660,000 | 1,322,000 |
| Neuadd Farchnad Aberteifi | 258,786 | 603,834 | 127,600 | 447,480 | 1,437,700 |
| Swyddfa Bost y Rhyl – Hyb Cymunedol | 130,000 | 520,000 | 0 | 350,000 | 1,000,000 |
| Ailddatblygu YMCA | 900,000 | 2,100,000 | 0 | 3,201,500 | 6,201,500 |
| Adeilad Ocky White | 690,542 | 1,611,266 | 0 | 813,450 | 3,115,258 |
| Quay Stores | 391,772 | 2,226,228 | 0 | 2,482,000 | 5,100,000 |
| Neuadd Albert | 1,680,000 | 3,920,000 | 0 | 1,855,321 | 7,455,321 |
| Hen Adeilad British Home Stores[19] | 270,000 | 630,000 | 500,000 | 1,648,072 | 3,048,072 |
| Theatr y Palas | 1,470,000 | 3,430,000 | 0 | 2,100,000 | 7,000,000 |
| Stiwdios Ffordd Alexandra[20] | 270,300 | 630,000 | 0 | 1,100,000 | 2,000,300 |
| **Cyfanswm yr Arian a Gymeradwywyd/Arfaethedig** | **16,575,186** | **35,158,500** | **2,459,600** | **64,876,082** | **119,069,368** |

3.7 Mae Ffigur 3.2 isod yn nodi'r amserlenni adeiladu ar gyfer pob prosiect. Mae'r bandiau mewn cod lliw yn dibynnu ar ba flwyddyn ariannol y bydd pob prosiect yn ei chwblhau. Mae'r tabl yn dangos y bydd nifer o brosiectau yn cael eu cwblhau'n fuan (a byddant yn flaenoriaeth ar gyfer ymchwil drwy'r gwerthusiad yng ngwanwyn 2021). At hynny, mae'n dangos bod nifer o brosiectau mewn perygl o fethu â chael eu cwblhau erbyn diwedd y rhaglen, gyda'r gwariant yn digwydd ar ôl cwblhau'r gwaith.

[18] Gwybodaeth Fonitro AAGYD – 17fed Rhagfyr 2020.
[19] Ym mis Rhagfyr 2020, cyfeirir at y prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe fel Hyb Canol y Ddinas
[20] Arferai'r prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe gael ei alw'n Stiwdios GOFOD, Tŷ Dylan Thomas.

**Ffigur 3.2: Amserlenni Adeiladu Disgwyliedig ar gyfer Pob Prosiect AAGYD**[21]




[21] Gwybodaeth Fonitro AAGYD – Mis Awst 2020. Oherwydd y gwahaniaeth amser rhwng Ffigur 3.2 a Tabl 3.1, gallai amserlenni prosiectau penodol fod ychydig yn wahanol.

3.8 Mae'r tabl canlynol yn dangos yr allbynnau a'r canlyniadau disgwyliedig y bydd pob prosiect yn eu cyflawni (Tabl 3.3).

**Tabl 3.3: Allbynnau Craidd AAGYD yn ôl Prosiect (Tachwedd 2020)**[22]

| Enw'r Prosiect | Swyddi a Grëwyd (ERDF) | Buddsoddiad a Ddenwyd (£) (AAGYD) | Busnesau Bach a Chanolig a Grëwyd (ERDF) | Safleoedd a Grëwyd /Adnewyddwyd ($m^2$) (ERDF) | Tir a Ddatblygwyd (Ha) (ERDF) | Swyddi Gros a Grëwyd (AAGYD) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailddatblygu Dyffryn Taf | 1,125 | 0 | 20 | 13,504 | 0.63 | 612 |
| Neuadd Farchnad Caergybi | 22 | 0 | 3 | 736 | 0.046 | 3 |
| Y Terminws | 100 | 0 | 4 | 1,054 | 0.13 | 55 |
| 7 Ffordd Abergele | 15 | 220,000 | 3 | 452 | 0 | 5 |
| Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned | 10 | 0 | 10 | 490 | 0.321 | 3 |
| 10 The Circle | 9 | 378,473 | 3 | 168 | 0 | 2.5 |
| Neuadd y Dref Maesteg | 19 | 4,012,047 | 4 | 1,784.4 | 0 | 9 |
| Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines y Rhyl | 100 | 3,000,000 | 25 | 12,081 | 1.1 | 35 |
| The Plaza ETC | 40 | 0 | 10 | 1,626 | 0 | 10 |
| Adeilad Ocky White | 60 | 0 | 3 | 1,447 | 0.02 | 60 |
| 8 Wind Street | 47 | 0 | 12 | 462 | 0.023 | 30 |
| Neuadd Farchnad Aberteifi | 18 | 0 | 12 | 1,180 | 0 | 0 |
| Costigan's | 20 | 110,000 | 5 | 324 | 0 | 5 |
| Neuadd Farchnad Llandeilo | 45.9 | 2,462,600 | 17 | 1,249 | 0 | 45 |
| Swyddfa Bost y Rhyl – Hyb Cymunedol | 15 | 350,000 | 2 | 415 | 0 | 3 |
| Ailddatblygu YMCA | 81 | 0 | 10 | 980 | 0 | 11 |
| Cei Cambrian (Cardigan Mash) | 66 | 0 | 20 | 1,298 | 0 | 22 |
| Quay Stores | 14 | 0 | 3 | 1,000 | 0 | 20 |
| Hen Adeilad British Homes Stores | 700 | 0 | 4 | 4,000 | 0 | 0 |
| Stiwdios Ffordd Alexandra | 23 | 0 | 6 | 1,016 | 0 | 0 |
| Neuadd Albert | 70 | 0 | 3 | 2,630 | 0 | 0 |
| Theatr y Palas | 128 | 0 | 4 | 1,544 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,727.9** | **10,533,120** | **183** | **49,440.4** | **2.27** | **930.5** |

[22] Mae rhai prosiectau yn adrodd am allbynnau uwch na'r rhai a ddangosir yn Nhabl 3.3. Y rheswm am hyn yw bod Tabl 3.3 yn cyflwyno dim ond yr allbynnau hynny sy'n gymwys i hawlio o dan ERDF neu AAGYD. Nodir p' un ai a yw'r allbwn yn allbwn AAGYD neu ERDF yn rhes gyntaf y tabl.

*Asesiad gwerth am arian cychwynnol*

3.9 Mae dadansoddiad o allbynnau targed prosiectau a ariennir gan AAGYD yn erbyn costau prosiectau (fel y dangosir yn Nhabl 3.4 drosodd) yn darparu asesiad elfennol o effeithlonrwydd wrth gyflawni allbwn pob prosiect a ariennir gan AAGYD. Yn bwysig, nid yw hyn yn ystyried cymhlethdod y safleoedd na natur y cynlluniau a gynlluniwyd ac a gyflawnwyd.

3.10 Mae cynllun busnes rhaglen AAGYD[23] yn cyfeirio at feincnodau mewn perthynas â'r gost fesul allbwn ac, yn benodol, y gost fesul swydd a grëwyd yn erbyn gwariant adfywio sy'n gysylltiedig ag 'eiddo diwydiannol a masnachol'. O'i adolygu yn erbyn gwariant adfywio llywodraeth ganolog dros gyfnod o ddwy flynedd (2008–2009), amcangyfrifir mai £62,400[24] yw'r gost fesul swydd ychwanegol net a grëwyd (a'i gynyddu i gyfrif am effeithiau chwyddiant). Yn erbyn y meincnod hwn, mae'n ymddangos bod y gwerth am arian ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau a ariennir gan AAGYD braidd yn wael; fodd bynnag, mae natur a chymhlethdod y prosiectau a ariennir drwy AAGYD yn rhoi pwysau chwyddiant sylweddol ar yr asesiad hwn.

3.11 Mae'r cynllun busnes hefyd yn cyfeirio at ddwy enghraifft flaenorol[25] o raglenni adfywio sy'n rhestredig - gradd II, sydd â rhinweddau pensaernïol, neu heb eu defnyddio am gyfnodau sylweddol. Yn y ddwy enghraifft, y gost fesul metr sgwâr o safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd sy'n cynnig y meincnod mwyaf priodol i'w gymharu â phrosiectau a ariennir gan AAGYD. Mae costau meincnodi mewn perthynas â'r mesur hwn yn amrywio o £2,886 i £3,709 y $m^2$; ar gyfartaledd, mae prosiectau AAGYD yn cynnig gwerth ychydig yn well am arian na'r cynlluniau hyn.

3.12 Mae Tabl 3.4 hefyd yn dangos cryn amrywiant yn y gost ddisgwyliedig fesul dangosydd allbwn. Roedd templed y cynllun busnes ar gyfer ceisiadau am arian drwy raglen AAGYD yn cynnwys adran benodol ar werth am arian a oedd yn nodi'r angen am ddadansoddiad cost a budd ac arfarniad datblygu i ddangos hyfywedd pob prosiect. Heb weld cynlluniau busnes unigol y

[23] Llywodraeth Cymru (2018) *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – Cynllun Busnes V14* (heb ei gyhoeddi).
[24] Cambridge Economic Associates et al. (2010) Valuing the Benefits of Regeneration – Economics paper 7: Volume I – Final Report, London, Department for Communities and Local Government.
[25] Hen Neuadd y Dref, Redhouse, Merthyr Tudful a Neuadd Gwyn Castell-nedd.

prosiectau unigol, tybir, ar gyfer y prosiectau hynny sy'n ymddangos yn aneffeithlon o safbwynt cost fesul allbwn, bod y manteision mesuradwy a rhai nad ydynt yn fesuradwy (gan gynnwys manteision hirdymor) prosiectau a ariennir o ran canlyniadau, yn gwrthbwyso'r rhain o leiaf yn rhannol.

**Tabl 3.4: Gwerth am Arian (Asesiad Cost-Effeithiolrwydd)**

| Enw'r Prosiect | Cyfanswm y Gyllideb (£) | £ fesul Swydd a Grëwyd | £ fesul BBaCh a Grëwyd | £ fesul Safle a Grëwyd/ Adnewyddwyd ($m^2$) | £ fesul Swydd Gros a Grëwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ailddatblygu Dyffryn Taf | 39,616,000 | 35,214 | 1,980,800 | 2,934 | 64,732 |
| Neuadd Farchnad Caergybi | 4,255,235 | 193,420 | 1,418,412 | 5,782 | 1,418,412 |
| Y Terminws | 1,932,300 | 19,323 | 483,075 | 1,833 | 35,133 |
| 7 Ffordd Abergele | 845,000 | 56,333 | 281,667 | 1,869 | 169,000 |
| Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned | 893,041 | 89,304 | 89,304 | 1,823 | 297,680 |
| 10 The Circle | 520,473 | 57,830 | 173,491 | 3,098 | 208,189 |
| Neuadd y Dref Maesteg | 7,522,037 | 395,897 | 1,880,509 | 4,215 | 835,782 |
| Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines y Rhyl | 14,097,531 | 140,975 | 563,901 | 1,167 | 402,787 |
| The Plaza ETC | 6,508,000 | 162,700 | 650,800 | 4,002 | 650,800 |
| Adeilad Ocky White | 3,115,258 | 51,921 | 1,038,419 | 2,153 | 51,921 |
| 8 Wind Street | 757,000 | 16,106 | 63,083 | 1,639 | 25,233 |
| Neuadd Farchnad Aberteifi | 1,437,700 | 79,872 | 119,808 | 1,218 | Ddim ar gael[26] |
| Costigans | 480,000 | 24,000 | 96,000 | 1,481 | 96,000 |
| Neuadd Farchnad Llandeilo | 3,962,600 | 86,331 | 233,094 | 3,173 | 88,058 |
| Swyddfa Bost y Rhyl – Hyb Cymunedol | 1,000,000 | 66,667 | 500,000 | 2,410 | 333,333 |

[26] Ar gyfer rhai prosiectau, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd gwybodaeth ar gael er mwyn gallu cynnal dadansoddiad cost-effeithiolrwydd.

| Enw'r Prosiect | Cyfanswm y Gyllideb (£) | £ fesul Swydd a Grëwyd | £ fesul BBaCh a Grëwyd | £ fesul Safle a Grëwyd/ Adnewyddwyd ($m^2$) | £ fesul Swydd Gros a Grëwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ailddatblygu YMCA | 6,201,500 | 76,562 | 620,150 | 6,328 | 563,773 |
| Cei Cambrian (Cardigan Mash) | 1,322,000 | 20,030 | 66,100 | 1,018 | 60,091 |
| Quay Stores | 5,100,000 | 364,286 | 1,700,000 | 5,100 | 255,000 |
| Hen Adeilad British Homes Stores | 3,048,072 | 4,354 | 762,018 | 762 | Ddim ar Gael |
| Stiwdios Ffordd Alexandra | 2,000,300 | Ddim ar Gael | 333,383 | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael |
| Neuadd Albert | 7,455,321 | 106,505 | 2,485,107 | 2,835 | Ddim ar Gael |
| Theatr y Palas | 7,000,000 | 54,688 | 1,750,000 | 4,534 | Ddim ar Gael |
| **Cyfartaledd** | **5,412,244** | **100,110** | **785,869** | **2,827** | **326,819** |

3.13 Mae Tabl 3.5 isod yn rhoi trosolwg o sut y disgwylir i'r rhaglen berfformio yn erbyn y targedau ar gyfer rhaglen AAGYD fel y nodir yn y llythyr cymeradwyo ym mis Tachwedd 2018. Mae'n dangos, ar draws targedau sy'n gysylltiedig â safleoedd masnachol (sy'n gyrru dangosyddion targed sy'n gysylltiedig â swyddi a BBaChau a grëwyd a swyddi a sicrhawyd), fod AAGYD yn perfformio'n agos at y proffil; mewn perthynas â swyddi gros a grëwyd, mae'n perfformio'n uwch na'r proffil o gryn dipyn (38 y cant). O ran maint y gwaith adeiladu ($m^2$ a grëwyd ac a adnewyddwyd a'r hectarau a ddatblygwyd) y diffyg yn erbyn y proffil yw 20 y cant a 24 y cant yn y drefn honno.

3.14 Mae'r rhaglen gryn dipyn yn brin o gyrraedd y targedau sy'n gysylltiedig ag integreiddio prosiectau â chyfleoedd cyflogaeth. Mae'n debygol y bydd COVID-19 wedi effeithio ar y ffigurau hyn (gyda phellter cymdeithasol a chau ysgolion a cholegau AB dros dro yn debygol o effeithio ar nifer y cyfleoedd hyfforddeiaeth); fodd bynnag, mae'n werth nodi nad ydynt wedi newid fawr ers 2019 ac y gallent fod yn gysylltiedig yn bennaf â chymalau budd cymunedol sy'n bodoli eisoes ar gyfer contractwyr.

**Tabl 3.5: Dangosyddion Allbwn a Dargedwyd ac a Gymeradwywyd**

| Dangosydd Allbwn | Cyfanswm (Tach. 2020) | Gwerth Gwreiddiol a Gymeradwywyd (Tach. 2018) | Amrywiant | % Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Swyddi a Grëwyd (ERDF) | 2,727.9 | 3,123 | -395.1 | -13% |
| Buddsoddiad a Ddenwyd mewn £000oedd (AAGYD) (**Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd**) | 10,533 | 78,633 | -68,100 | -87% |
| Busnesau Bach a Chanolig a Grëwyd (ERDF) | 183 | 198 | -15 | -8% |
| Safleoedd a Grëwyd /Adnewyddwyd (SQM) (ERDF) | 49,440.4 | 61,878 | -12,437.6 | -20% |
| Swyddi Gros a Grëwyd (AAGYD) | 930.5 | 676.5 | 254.5 | 38% |
| Tir a Ddatblygwyd (Hectarau) (ERDF) | 2.27 | 2.98 | -0.71 | -24% |
| Cyfanswm nifer yr Hyfforddeiaethau ar y prosiect (AAGYD) | 52 | 246 | -194 | -79% |
| Cyfanswm nifer y rhai sy'n gadael hyfforddeiaeth gan symud ymlaen i ddysgu pellach (AAGYD) | 16 | 115 | -99 | -86% |
| Cyfanswm nifer y rhai sy'n gadael hyfforddeiaeth gan symud ymlaen i gyflogaeth (AAGYD) | 28 | 95 | -67 | -71% |


# 4. Cynnydd y Prosiect

### Rheoli a llywodraethu

4.1 Un o'r heriau y mae rhaglen AAGYD wedi'i hwynebu yw lefel sylweddol is o adnoddau (personél) ar gyfer rheoli'r gwaith na'r hyn a gyflwynwyd yn y cynllun busnes. Roedd y gostyngiad mewn adnoddau yn seiliedig ar y rhesymeg y byddai tîm y rhaglen yn defnyddio'r capasiti ychwanegol oedd ar gael drwy dîm adfywio ehangach Llywodraeth Cymru. Oherwydd cymhlethdod y broses ymgeisio ar gyfer cyllid AAGYD a'r adnoddau cyfyngedig oedd ar gael o fewn tîm y rhaglen, dywedodd Cyd-fuddiolwyr fod amseroedd ymateb i ymholiadau a cheisiadau cynlluniau busnes weithiau'n hirach na'r disgwyl.

4.2 Ers cyfnod cychwynnol y gwerthusiad, mae rhywfaint o newid wedi bod yn nhîm AAGYD o ran unigolion a benodwyd a rolau a gyflawnir. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y newid yn y rhaglen o gymeradwyo cyllid i wireddu (a gwariant). O ganlyniad, bu newid yn y pwyslais ar gymorth i gaffael, gwariant a chwblhau hawliadau. Yn fwy na hynny, mae'r tîm wedi ehangu o 3.5 i 4.5 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI), a phenodwyd Rheolwr Rhaglen (Ffigur 4.1 isod).

**Ffigur 4.1: Tîm Rheoli Rhaglen AAGYD – Rhagfyr 2020**




4.3 Er bod natur y rolau a fabwysiadwyd gan dîm y rhaglen wedi newid i adlewyrchu'r newid yn y rhaglen i gyflawni gwariant, roedd ehangu adnoddau ymhlith tîm y rhaglen hefyd yn adlewyrchu'r angen i gynyddu momentwm wrth werthuso a chymeradwyo ceisiadau i'r rhaglen.

4.4 Roedd ychwanegu Rheolwr Datblygu'r Rhaglen hefyd (yn fwriadol) yn golygu bod aelod o staff a arferai fod yn rhan o WEFO yn ymuno â'r tîm. Cyfrannodd wybodaeth ac arbenigedd ychwanegol at y tîm mewn perthynas â chyllid Ewropeaidd, ac yn ôl yr adborth cyffredinol mae'r rhaglen wedi elwa'n arbennig ar hyn wrth symud ymlaen.

*Cymorth caffael*

4.5 Roedd ehangu tîm y rhaglen hefyd yn adlewyrchu heriau a ddaeth i'r amlwg o ran caffael rhai o'r prosiectau cyntaf i AAGYD fuddsoddi ynddynt. Ar ôl penodi Rheolwr Rhaglen, blaenoriaethwyd cymorth yn y maes hwn.

4.6 Roedd yr heriau'n gysylltiedig â chaffael yn amrywio rhywfaint o'r naill brosiect i'r llall ond roeddent fel arfer yn gysylltiedig â defnyddio fframweithiau caffael a sefydlwyd yn flaenorol ar gyfer adeiladu, neu â gofynion caffael yn ymwneud â chyllid Ewropeaidd. Dyma rai o'r problemau a gafwyd:

- yr angen i gynnwys holl aelodau'r fframwaith caffael drwy gydol y broses gaffael, p'un a oeddent wedi cofrestru diddordeb cychwynnol mewn tendro am y gwaith ai peidio.
- lefel isel o ddiddordeb, neu ddim diddordeb mewn tendro am y gwaith (yn ôl yr adborth, oherwydd cyfuniad o'r arian ar gael ar gyfer y gwaith adeiladu a/neu gymhlethdod y gofynion a llai o awydd am gynlluniau adnewyddu o gymharu â chynlluniau adeiladu newydd).
- yr angen i gaffael ar gyfer gwaith ychwanegol/dilynol pe bai arian arall ar gael, neu os oes gan y prosiect gamau penodol.
- dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith yn ddrutach na'r disgwyl, gan olygu bod angen ail-dendro, neu ailedrych ar yr amcangyfrifon cost ar gyfer y prosiect.

4.7 Gan fyfyrio ar y newidiadau i dîm y rhaglen, teimlai'r holl randdeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru a'r Cyd-fuddiolwyr eu bod wedi bod yn newidiadau cadarnhaol. Mae'r newidiadau wedi helpu i gryfhau'r berthynas rhwng WEFO a thîm y rhaglen ac wedi arwain at welliannau mewn cyfathrebu â Chyd-fuddiolwyr (er bod y Cyd-fuddiolwyr yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r diffyg deialog uniongyrchol â WEFO o hyd).

*Integreiddio â thîm adfywio ehangach Llywodraeth Cymru*

4.8 Mae'r tîm adfywio ehangach yn Llywodraeth Cymru yn symud eu ffocws gweithredu o fentrau a phrosiectau ariannu penodol i ddull sy'n gweithredu o dan negeseuon cyson y brand Trawsnewid Trefi i helpu i roi argraff o gynnig

mwy di-dor. Mae'n amlwg bod y newid hwn yn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n peri dryswch mewn perthynas â'r rhestr o 'ffynonellau' adfywio sydd ar gael, yn ogystal â helpu i integreiddio gweithgareddau adfywio a gynigir drwy Fuddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu, y Gronfa Benthyciadau Canol Trefi, a'r Gronfa Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth gyda rhaglen AAGYD. Hwyluswyd hyn ymhellach gan gyfarfodydd cydweithredol amlach (rhwng y tîm adfywio yn Llywodraeth Cymru, AAGYD, a chynrychiolwyr Cyd-fuddiolwyr yr awdurdod lleol), sydd unwaith eto, yn ôl yr adborth, yn newid cadarnhaol tuag at weithgareddau adfywio mwy integredig ar lefel leol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys prosiect Hyb Canol y Ddinas[27], sydd, er enghraifft, yn denu cyllid AAGYD, Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu a Benthyciadau Canol Trefi.

4.9 Yn ogystal â'r newid yn y ffocws, yn y rhan fwyaf o ranbarthau, mae cyfarfodydd ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, tîm rhaglen AAGYD, a'r tîm adfywio ehangach yn digwydd yn amlach. Yn Ne-orllewin Cymru disgrifir y rhain fel cyfarfodydd cyswllt misol lle caiff pob prosiect adfywio ei adolygu (waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu). Wrth wneud hynny, mae'n amlwg bod hyn yn helpu i wella eglurder a chysondeb negeseuon ynghylch adfywio canol trefi ymhellach.

4.10 Mae rhanddeiliaid yn cydnabod bod cynnydd pellach i'w wneud yn hyn o beth, gan fod integreiddio'n llawn y ddarpariaeth adfywio yn gymharol gyfyngedig, tra bod timau rhaglenni sy'n benodol i ymyriadau a ffynonellau ariannu (gyda'u gofynion penodol eu hunain) yn parhau. Fodd bynnag, mae'r dull hwn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i ddod â chapasiti ac arbenigedd pellach i Gyd-fuddiolwyr pan fo llai o adnoddau oherwydd mesurau llymder yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Cynnydd o ran cyflawni rhaglen AAGYD**

4.11 Fel yr amlinellwyd yn adran 3, mae'r cynnydd a wnaed gyda rhaglen AAGYD dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn werth ei nodi, gyda 13 o

[27] Arferai'r prosiect diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu gan Ddinas a Sir Abertawe gael ei alw'n hen Adeilad British Home Stores.

brosiectau'n cael eu cymeradwyo’n llawn a naw prosiect wedi dechrau gweithio ar y safle ym mis Tachwedd 2020.

4.12 Caiff cyfradd y cynnydd ar gyfer pob prosiect ei dylanwadu’n bennaf gan gymhlethdod pob prosiect, ond hefyd gan y capasiti, yr arbenigedd a'r awydd/gallu i fentro ar ran y Cyd-fuddiolwr.

4.13 Mae strwythur y broses gymeradwyo (gyda chadarnhad ariannol ond yn cael ei roi ar ôl cael cryn sicrwydd o ran cost drwy gyflawni Cam 3 RIBA) yn golygu bod y Cyd-fuddiolwyr yn gorfod ysgwyddo'r risg yn gysylltiedig â chostau cychwynnol prosiectau er mwyn eu galluogi i gyrraedd y cam hwnnw. Wrth orfod ysgwyddo'r risg honno, mae'r rhaglen yn dieithrio ymgeiswyr yn y sector preifat a'r trydydd sector:

> 'Cawsom ein rhybuddio am y cymhlethdod... felly dywedwyd wrthym y byddai'n hir ac yn anodd ... ond roeddem yn dal i deimlo y byddai'n iawn, ond roedd yn dasg llawer mwy na dim byd arall rwyf wedi bod yn ymwneud ag ef yn bersonol.' (Cyd-fuddiolwr)

4.14 Mae rhai Cyd-fuddiolwyr, gyda Dinas a Sir Abertawe yn un enghraifft o'r fath, wedi darparu adnoddau sylweddol nid yn unig i'w prosiectau eu hunain ond hefyd i eraill yn y ddinas sydd wedi'u harwain gan y sector preifat. I Gyd-fuddiolwyr eraill, mae'r diffyg gwaith a chapasiti cymharol i ddatblygu prosiectau wedi golygu bod y cynnydd wedi bod yn arafach. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif llethol o brosiectau, yn ôl eu natur, yn eithriadol o gymhleth, gyda safleoedd/adeiladau mewn cyflwr gwael ac o werth sylweddol o ran treftadaeth - y rhain oll yn rhesymau pam nad yw'r safleoedd wedi'u cyflwyno yn y gorffennol ac yn dangos pam nad yw costau annisgwyl neu broblemau eraill yn anghyffredin:

> 'Mae'r cyllid wedi bod yn sylweddol. Roedd gennym ffigur mewn golwg gyda RIBA Cam 3 — a gyda AAGYD rydych yn cyflwyno achos busnes ond dydych chi ddim wir yn gwybod beth yw'r costau — ac roeddem tua £1m yn llai na’r gyllideb ar gyfer hyn, felly roedd hyn yn peri straen o ran amcangyfrif

y gwerth a bu'n rhaid i'r awdurdod lleol roi mwy o arian i mewn.' (Cyd-fuddiolwr)

4.15 I dîm y rhaglen, mae graddau'r cymorth y mae angen iddynt ei ddarparu, yn ei dro, wedi amrywio, gyda chymorth mwy dwys fel arfer ei angen ar Gyd-fuddiolwyr y trydydd sector a'r sector preifat.

*Pandemig COVID-19*

4.16 Mae'r achosion o bandemig COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd prosiectau. Yn ystod cam cychwynnol y 'cyfyngiadau symud' cenedlaethol cyntaf (yn enwedig Mawrth/Ebrill 2020) lle'r oedd y gwaith adeiladu wedi dechrau, yn y rhan fwyaf o achosion cafodd ei atal dros dro. Wedi hynny, ailddechreuodd y gwaith adeiladu ym mhob prosiect, ond oherwydd cyfyngiadau'r mesurau cadw pellter cymdeithasol roedd llai o lafur ar gael ar rai safleoedd, tra bod cadwyni cyflenwi wedi'u heffeithio yn y rhan fwyaf o brosiectau. Arweiniodd hyn, at ei gilydd, at estyniad o dri mis mewn amserlenni adeiladu.

4.17 Mae goblygiadau ehangach pandemig COVID-19 yn ymwneud â'r newid i weithio o bell a chyflymu'r defnydd o ganol trefi (yn enwedig arferion defnyddwyr o brynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein). Er gwaethaf yr amrywiaeth o fesurau ymateb i ddiogelu busnesau a gweithwyr, mae'r pandemig wedi effeithio fwyaf ar fanwerthwyr a'r rhai yn y sector lletygarwch (y mae'r ddau ohonynt yn gyffredin yng nghanol trefi). Mae sefydliadau cenedlaethol yn y sectorau hyn wedi bod yn cyhoeddi diswyddiadau ac yn cau canghennau mor aml nes ei fod yn destun pryder, tra bod cyflogwyr yn ceisio lleihau'r gofod masnachol (swyddfa) sydd ei angen arnynt er mwyn adlewyrchu dull gweithredu mwy cyfunol (o bell ac yn y swyddfa).

4.18 Ar gyfer prosiectau AAGYD, gydag allbwn targed allweddol o ran nifer y swyddi a busnesau bach a chanolig a grëwyd, mae hyn wedi codi rhai pryderon. Fodd bynnag, mae llawer o'r prosiectau hyn yn cynnig safleoedd hyblyg a'r cyfle i gael swyddi yn nes at eu cartrefi mewn trefi lleol (gan roi dewis yn hytrach na chymudo i ddinasoedd). At hynny, roedd cyfle mewn rhai prosiectau i addasu'r dyluniad mewnol er mwyn adlewyrchu'n well y newid tebygol yn y galw gan ddefnyddwyr:

> '... rydym wedi ymateb ar unwaith i addasu ychydig o elfennau o ddyluniad yr adeilad, wedi creu ychydig o ardaloedd cynllun agored mwy o faint, i annog mwy o weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r hyb yn hytrach na gosod swyddfeydd... a gallwn adfer [swyddfeydd] gan y bydd y galw, yn fwy na thebyg am drefniadau mwy hyblyg - pobl yn dod i'r swyddfa ddwywaith yr wythnos' (Cyd-fuddiolwr)

4.19 Yn y cyfamser, mae eraill o'r farn y gallai'r newid yng ngofynion defnyddwyr arwain at fwy o alw am ddarpariaeth yn eu lleoliad:

> 'Credwn y bydd galw yn yr ardaloedd gwledig — mae llawer o bobl yn ystyried symud i ardaloedd gwledig ac eisiau gwell ansawdd bywyd a chostau is.' (Cyd-fuddiolwr)

*Cynnydd mewn costau*

4.20 Mae ansicrwydd yn gysylltiedig â deunyddiau a chadwyni cyflenwi, gyda'r pandemig ar ben hynny, wedi arwain at fwy o ansefydlogrwydd mewn costau. O ganlyniad, mae'n amlwg bod cwmnïau wedi bod yn cynnwys rhywfaint o'r ansicrwydd hwn (yn enwedig o fewn fframweithiau caffael presennol) wrth brisio, gan arwain at chwyddiant pellach yng nghostau cynlluniau adeiladu. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gydag arweinwyr prosiectau cyn i'r 'ail don' o heintiau COVID-19 gyrraedd a'r 'cyfnod atal byr' dilynol ledled Cymru, a chyfeiriodd sawl rhanddeiliad at risg o gynnydd graddol pellach mewn costau, pe bai ail don.

4.21 O fewn cam cychwynnol y gwerthusiad, codwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg hyblygrwydd i addasu (cynyddu) buddsoddiad ERDF mewn ymateb i gynnydd annisgwyl yng nghostau prosiectau. Deilliodd y rhan fwyaf o amcangyfrifon costau o broses flaenoriaethu ranbarthol 2015. Yn achos nifer o'r prosiectau a ariannwyd yn y pen draw, nid oedd amcangyfrifon cost yn ddigon trylwyr gyda lefelau annigonol o bosibl o arian wrth gefn, yn enwedig ar gyfer prosiectau treftadaeth, adfeiliedig a chymhleth o'r math hwn.

*Tynnu'n ôl*

4.22 Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y prosiectau hynny sy'n parhau i fod yn rhan o raglen AAGYD, mae rhai wedi tynnu’n ôl cyn dechrau. Mae pedwar prosiect dros y 12 mis diwethaf yn tynnu'n ôl o'r rhaglen a phedwar prosiect yn symud (neu yn y broses o symud) at Gyd-fuddiolwr arall.

4.23 Mae’r rhai sydd wedi tynnu'n ôl wedi’u heffeithio gan y cynnydd mewn costau (sydd wedi tanseilio dichonoldeb ariannol prosiectau) ac analluogrwydd'r Cyd-fuddiolwyr i dalu'r cynnydd mewn costau drwy ffynonellau ariannu eraill neu'r diffyg sicrwydd ariannol i fwrw ymlaen. Ar gyfer un prosiect a arweinir gan y sector preifat, roedd y cynnydd graddol mewn costau, y lefel uwch o arian cyfatebol a'r angen i gyflawni canlyniadau’r rhaglen (a ddylanwadodd, yn eu tro, ar ddyluniad yr adeilad) yn ormod o risg i'r ymgeisydd yn y pen draw.

4.24 Bu i brosiect arall (a arweiniwyd gan y sector preifat unwaith eto) dynnu’n ôl oherwydd ansicrwydd cynyddol yn y farchnad fasnachol (yn ôl y sôn yn gysylltiedig â COVID-19 a Brexit), ynghyd â'r amser yr oedd yn rhaid iddynt ymrwymo i'w cyfran o'r cyllid tra oedant yn aros am sêl bendith ar gyfer y cynllun busnes. Roedd amheuaeth ynghylch hyfywedd ariannol prosiect arall ar ôl ei gwblhau yn y tymor byr i ganolig oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac, yn y pen draw, arweiniodd at dynnu'r prosiect yn ôl.

4.25 Ar gyfer arweinwyr y sector preifat, bu sawl enghraifft lle maent wedi cael trafferth i ddatrys problemau’n deillio o'r broses diwydrwydd dyladwy neu wedi eu llethu gan lefel y gwaith (a'r diffyg capasiti cysylltiedig ar gael) angen ei wneud er mwyn sicrhau'r arian. At hynny, maent wedi teimlo’n rhwystredig ynghylch y cyfyngiadau canfyddedig sy'n gysylltiedig â phrosesau caffael sydd wedi cyfyngu ar faint o hyblygrwydd sydd ar gael i Gyd-fuddiolwr yn wyneb cynnydd graddol mewn costau. At hynny, roedd disgwyliadau (a oedd yn afrealistig yn y pen draw) ymhlith arweinwyr y sector preifat o ran pa mor gyflym yr oeddent yn rhagweld y byddai prosiectau'n symud ymlaen, gyda'u cynllunio mewnol eu hunain yn seiliedig ar amserlenni oedd yn amhosibl eu cyflawni.

4.26 Wynebwyd heriau pellach mewn perthynas â chostau ymlaen llaw (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â diwydrwydd dyladwy ar y datblygwr) neu'r costau'n gysylltiedig â dylunio a dichonoldeb. I rai Cyd-fuddiolwyr, mae'r costau hyn wedi bod yn rhy fawr i fuddsoddi (risg) ynddynt, gan beri iddynt dynnu'n ôl.

4.27 Er bod teimlad o rwystredigaeth gyffredinol o ran biwrocratiaeth, cymhlethdod ac amserlenni'r gwaith, dylid nodi a chydnabod hefyd bod tîm y rhaglen wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i geisio cael hyd i ateb priodol o fewn y cyfyngiadau a wynebwyd. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at drosglwyddo’r ymgeisydd arweiniol (Cyd-fuddiolwr) i’r awdurdod lleol, yn enwedig yn Abertawe (lle mae'r awdurdod lleol wedi cymryd rôl y Cyd-fuddiolwr ar sawl prosiect).

**Risgiau o ran cyflawni**

4.28 Wrth ystyried risgiau o ran cyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus, cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at ofnau y gallai ail don hir o COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig oedi neu atal cynnydd mewn adeiladu prosiectau. At hynny, mae pryderon parhaus o hyd ynghylch argaeledd deunyddiau, gyda phlastrfwrdd a phlastr yn gyffredinol yn anodd iawn cael gafael arnynt yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf.

4.29 Mae'r prosesau hirfaith sy'n gysylltiedig â sicrhau cyllid a bwrw ymlaen â phob prosiect hefyd yn cael eu hystyried yn risg allweddol i Gyd-fuddiolwyr, yn enwedig os ydynt yn defnyddio pecyn buddsoddi gan nifer o ffynonellau ariannu gyda'r amserlenni amrywiol ar gyfer cyflawni gwariant cymwys. Mae denu cyllid gan wahanol gyllidwyr, a gwneud hynny'r un pryd, yn fater anodd iawn i sicrhau bod llif arian yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

4.30 Gyda'i gilydd, cododd yr oedi hwn bryderon ymysg rhanddeiliaid ynglŷn â'r gallu i gwblhau rhaglenni adeiladu o fewn yr amserlen ar gyfer y rhaglen, fel y dangosir gan Dabl 3.2 yn adran 3.

4.31 Roedd pryderon ynghylch defnyddio pob adnodd yn y pen draw yn llai cyffredin ymysg y Cyd-fuddiolwyr. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adran hon, mae ymdeimlad y bydd yr adnoddau newydd yn parhau i fod yn addas

ar gyfer y newidiadau yn anghenion swyddfeydd, gyda'r gallu i addasu'r cynnig o fewn y safle er mwyn diwallu anghenion. Yn fwy na hynny, teimlai sawl un y gallai diddordeb busnesau bach a chanolig yn y cyfleusterau sy'n cael eu datblygu, o ystyried lleoliad a natur y safleoedd, hyd yn oed fod wedi gwella oherwydd y newid mewn arferion gwaith a newidiadau yn y galw/disgwyliadau ar gyfer gwaith.

4.32 Mae pryderon hefyd ynghylch cynnydd pellach mewn costau, yn enwedig ar gyfer y prosiectau hynny nad ydynt eto wedi cyrraedd RIBA Cam 3 (Cydgysylltu Gofodol) neu 4 (Dylunio Technegol). Mewn achos lle mae awdurdod lleol yn Gyd-fuddiolwr, mae gobaith y bydd unrhyw gynnydd mewn costau yn fach ac yn fforddiadwy, ac ar gyfer Cyd-fuddiolwyr eraill mae gobaith hefyd y gallant sicrhau cyllid ERDF nas defnyddiwyd drwy raglen AAGYD o ganlyniad i brosiectau sydd wedi tynnu'n ôl.

## 5. Themâu Trawsbynciol

5.1 Rhaid i'r holl brosiectau a ariennir drwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd integreiddio Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd, a Datblygu Cynaliadwy fel Themâu Trawsbynciol, yn ogystal â gweithredu i Drechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. Mae WEFO wedi datblygu ffurflen asesu Themâu Trawsbynciol sy'n nodi, drwy rannau o gynlluniau busnes pob Cyd-fuddiolwr, gynigion mewn perthynas â Themâu Trawsbynciol. Mae'r ffurflen yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-fuddiolwyr adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r rhain, a chaiff y cynnydd ei fonitro drwy gyfarfodydd adolygu gyda phob Cyd-fuddiolwr, tra bydd tîm Themâu Trawsbynciol WEFO yn gwneud gwaith dilynol lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r hyn y mae pob Cyd-fuddiolwr wedi'i gynnig.

5.2 Mae Tabl 5.1 isod yn rhoi trosolwg o gyfanswm nifer y dangosyddion Themâu Trawsbynciol unigol yn erbyn 12 o'r prosiectau a ariennir gan AAGYD (nid oes data wedi'i ddarparu ar brosiectau heb eu cymeradwyo eto). Mae'n dangos bod pob prosiect wedi ceisio ymgysylltu â Grwpiau Mynediad i'r Anabl a bod y mwyafrif wedi gweithredu mesurau cadarnhaol i gynorthwyo pobl anabl. Mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy, mae pob prosiect wedi ceisio gweithredu mesurau effeithlonrwydd adnoddau ac mae'r mwyafrif wedi cynnig cynllun teithio trefniadol, datblygu cadwyni cyflenwi lleol, a chynlluniau rheoli amgylcheddol ar gyfer safleoedd.

**Tabl 5.1: Dangosyddion Themâu Trawsbynciol** [28]

| Thema Drawsbynciol | Dangosydd Thema Drawsbynciol | Nifer y Prosiectau: | |
|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cyflawnwyd |
| Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd | Mesur Gweithredu Cadarnhaol - Pobl Anabl | 8 | 4 |
| | Mesur Gweithredu Cadarnhaol - Pobl Hŷn | 1 | 1 |
| | Mesur Gweithredu Cadarnhaol - Pobl Ifanc | 2 | 1 |
| | Mesur Gweithredu Cadarnhaol – Arall (Gweithgareddau Iechyd a Lles) | 2 | 1 |
| | Mesur Gweithredu Cadarnhaol – Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 2 | 1 |
| | Ymgysylltu â Grwpiau Mynediad i'r Anabl | 12 | 6 |

[28] Monitro Gwybodaeth AAGYD – Allbynnau Themâu Trawsbynciol Tachwedd 2020.

| Thema Drawsbynciol | Dangosydd Thema Drawsbynciol | Nifer y Prosiectau: | |
|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cyflawnwyd |
| | Gweithgaredd Cefnogi Siaradwyr Cymraeg | 7 | 5 |
| | Gweithgaredd Hyrwyddo'r Gymraeg | 3 | 0 |
| | Gweithgaredd Cyflog Cyfartal | 2 | 1 |
| Datblygu Cynaliadwy | Integreiddio Seilwaith Gwyrdd | 6 | 2 |
| | Integreiddio Seilwaith Glas | 1 | 1 |
| | Cefnogi Bioamrywiaeth ar Safle a Ariennir drwy SFs | 6 | 3 |
| | Datblygu Cynllun Teithio Trefniadol a Menter Trafnidiaeth Gynaliadwy | 7 | 4 |
| | Mesurau Effeithlonrwydd Adnoddau | 12 | 6 |
| | Rhagoriaeth BREEAM | 2 | 1 |
| | Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi Leol | 7 | 3 |
| | Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol Safleoedd | 7 | 3 |
| | Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDSs) lle bo hynny'n Berthnasol | 2 | 0 |
| | Cyrhaeddiad CEQUALL ar gyfer Gweithgarwch Adeiladu | 0 | 0 |
| | Datblygu Cod Eco | 2 | 0 |
| Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol | Sefydliadau sy'n Talu'r Cyflog Byw | 2 | 1 |
| | Gweithgaredd Adeiladu Sgiliau Cymunedol | 5 | 2 |
| | Cynlluniau Gwirfoddoli | 2 | 2 |
| | Gweithgaredd Eiriolaeth Mentora | 1 | 1 |
| Themâu Trawsbynciol Cyffredinol | Datblygu/Ymgysylltu â Hyrwyddwr Thema Drawsbynciol | 12 | 0 |
| | Integreiddio Cymalau Cymdeithasol | 12 | 0 |
| | Gweithgarwch Arfer Da Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 8 | 0 |
| | Cyflwyno Rhaglen Hyfforddi Staff Thema Drawsbynciol | 1 | 0 |
| | Gweithgaredd Cefnogi Dangosyddion Thema Drawsbynciol (mewn Prosiectau/Amcanion Lle nad yw'r Dangosyddion yn Bresennol) | 1 | 0 |

**Cyfle Cyfartal**

*Hygyrchedd*

5.3 Bu dulliau o integreiddio Cyfle Cyfartal (yn enwedig drwy hygyrchedd y prosiectau a gwblhawyd) yn arbennig o amlwg ym mhroses dylunio prosiectau a ariannwyd. Mae'n ofynnol i brosiectau a ariennir, fel gofyniad sylfaenol, gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, sy’n ei gwneud yn orfodol iddynt gymryd camau rhesymol i ddarparu mynediad i bobl anabl. Fel yr amlinellir yn Nhabl 5.1 uchod, mae pob prosiect wedi ceisio ymgysylltu â Grwpiau Mynediad i'r Anabl yn ystod y cam dylunio er mwyn sicrhau adborth ar ddyluniadau a hygyrchedd, gyda newidiadau'n cael eu gwneud lle y bo'n bosibl.

5.4 Mae nifer fawr o enghreifftiau o addasiadau i ddyluniadau yn amlwg ymhlith y prosiectau, gan gynnwys gostwng graddiant llwybrau cerdded a meysydd parcio i helpu (yn benodol) defnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai sydd wedi'u cyfyngu o ran eu gallu i symud, yn ogystal â neilltuo mannau parcio ychwanegol i bobl anabl o fewn meysydd parcio. Mewn prosiectau adnewyddu, mae grisiau'n cael eu tynnu (gan osod lifftiau yn eu lle) a llwybrau’n cael eu lledu.

5.5 Yn 10 The Circle, lle disgwylir y bydd lefel uchel o ddefnydd gan ymwelwyr, mae cynlluniau hefyd ar gyfer lliwiau cyferbyniol i’r waliau, y lloriau a fframiau drysau i’w gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i’w ffordd drwy'r adeilad; dolen sain ar gyfer pobl â chymhorthion clywed (mae rhai cludadwy ar gael); a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, yn enwedig yn ystod cyflwyniadau (os oes eu hangen).

5.6 Ceir enghreifftiau hefyd o brosiectau lle mae gwaith yn arwain at ychwanegu cyfleusterau hygyrch yng nghanol trefi nad oeddent ar gael fel arall. Ar gyfer prosiect Ocky White, fel rhan o'r digwyddiadau ymgynghori gyda grwpiau mynediad lleol, un o'r ceisiadau a wnaed oedd toiled cwbl hygyrch (y cyfeirir ato weithiau fel ystafell/toiled Changing Places). Mae mwy o le yn yr ystafelloedd hyn na chyfleusterau safonol i bobl anabl, gan alluogi gofalwyr i helpu oedolion anabl i'w defnyddio. Nodwyd drwy'r broses ymgynghori nad oes cyfleusterau o'r fath yn Hwlffordd; o ganlyniad, gwnaed addasiadau i

ddyluniad yr adeilad, gan leihau’r gofod masnachol a chynyddu costau'r prosiect er mwyn gallu eu gosod. Bydd y cyfleusterau’n dod yn adnodd i'r dref a'i defnyddwyr (yn hytrach na bod ar gyfer defnyddwyr yr adeilad yn unig). Deellir y bydd cyfleusterau tebyg yn cael eu gosod fel rhan o'r gwaith ar Neuadd y Dref Maesteg a Quay Stores:

> 'Un o'r pethau a ddeilliodd o'r gofyniad am Themâu Trawsbynciol, oedd bod yn rhaid i ni ymgysylltu â grŵp anabledd, ac mae'n debyg na fyddem wedi gwneud hynny heb y grant, ond rydym wedi cael toiled Changing Places yn yr adeilad ac wrthi’n ei osod. Aethom â chynlluniau o’r lloriau i'r cyfarfod a bu’n llwyddiannus iawn, a bu modd i ni ddatrys yr her yn y cyfarfod. Gwnaed yr un peth gyda Chyngor Dylunio Cymru, a rhoesant adborth defnyddiol iawn am y fynedfa ac ni fyddem wedi gwneud hyn hebddynt. (Cyd-fuddiolwr)

5.7 Fodd bynnag, mae prosiectau wedi wynebu heriau oherwydd cyfuniad o gyfyngiadau sy'n gysylltiedig nid yn unig â statws adeilad rhestredig ond hefyd oherwydd adnoddau annigonol i fynd i'r afael â materion hygyrchedd. Mewn un achos nid oedd modd gosod lifft i wella hygyrchedd i loriau uchaf adeilad a ariennir. Bydd heriau o ran bodloni gofynion hygyrchedd yn cael eu harchwilio'n fanylach fel rhan o'r gwerthusiad terfynol a thrwy weithgarwch astudiaethau achos.

5.8 Ymhlith y mesurau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y gwahanol grwpiau mae cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu a rhyngweithio â'r rhaglen adeiladu (gweler *Buddion Cymunedol* isod), gan gynnwys cymryd rhan mewn arddangosiadau, cyrsiau a gweithgareddau sy'n cynnig cyfle i ddod i gysylltiad â phroffesiynau adeiladu a chadwraeth. Ar gyfer sawl prosiect, yn enwedig y rhai ag elfen gref o dreftadaeth, mae trigolion hŷn yn cael eu cynnwys drwy gynlluniau cof i ddarparu gwaith ar y prosiectau yn seiliedig ar hel atgofion (gan gynnwys dangos atgofion neu arddangos lluniau ar hysbysfyrddau). Wrth i fwy o brosiectau ddechrau a chwblhau'r gwaith adeiladu, bydd enghreifftiau pellach o fesurau gweithredu cadarnhaol yn dod i'r amlwg, a fydd yn cael eu hadlewyrchu'n fanylach yn y gwerthusiad terfynol a'r astudiaethau achos.

*Buddion cymunedol*

5.9 Mae'n ofynnol i bob cynllun adeiladu gynnwys cymalau budd cymunedol/cymdeithasol yn y rhaglen adeiladu. Os bydd Cyd-fuddiolwyr wedi caffael contractwyr drwy fframwaith adeiladu sy'n bodoli eisoes, mae gofynion budd cymunedol wedi'u hintegreiddio o fewn yr ymarfer hwnnw. Mae arferion budd cymunedol wedi cynnwys, cyn dechrau'r rhaglen adeiladu, ddigwyddiadau 'cwrdd â'r contractwr' i annog a hyrwyddo cyfleoedd i gyflenwyr lleol gyflawni tasgau fel rhan o'r rhaglen adeiladu. Fel rhan o gam olaf y gwerthusiad, bydd gwariant adeiladu yn cael ei fapio i asesu lefel y llwyddiant wrth gaffael cyflenwyr lleol i gwblhau'r gwaith. Deellir eu bod wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn 10 The Circle i sicrhau cyflenwyr lleol, gyda holl gyflenwyr y contractwr lleol wedi'u lleoli o fewn radiws o bum milltir i'r safle.

5.10 Fodd bynnag, mae rhai elfennau o fuddion cymunedol wedi dioddef oherwydd cyfyngiadau sy'n deillio o bandemig COVID-19, gan gynnwys cyfleoedd i grwpiau ysgol neu goleg ddod i safleoedd adeiladu. Yn ogystal â hyn, mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar gyflogi prentisiaid neu gynnig lleoliadau gwaith. Unwaith eto, bydd llwyddiant cymharol yr elfennau hyn o gymalau budd cymunedol yn cael ei ystyried gyda phob prosiect fel rhan o ymchwil sy'n gysylltiedig â cham olaf y gwerthusiad.

**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

5.11 Mae cyfres o raglenni hyfforddi, addysg a gwirfoddoli fel rhan o'r broses adeiladu a gweithredu prosiectau a ariennir ar gael er mwyn helpu i sefydlu cysylltiadau â'r farchnad lafur leol a rhaglenni cyflogadwyedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru (megis Cymunedau am Waith) a mentrau lleol a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) (gan gynnwys ADTRAC); fodd bynnag, mae graddau'r cysylltiadau yn dibynnu ar y defnydd a wneir o’r cyfleusterau (dim ond dylanwad cyfyngedig y gall y Cyd-fuddiolwr ei gael ar gynlluniau recriwtio'r BBaChau a grëwyd). Mae'r cysylltiadau hyn, lle maent yn gysylltiedig â chyfnod adeiladu pob prosiect, wedi bod yn heriol i'w cyflawni o ganlyniad i gyfyngiadau'n gysylltiedig â COVID-19. Maent wedi

cyfyngu ar leoliadau ac ymgysylltu oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol a gan fod ysgolion a cholegau AB ar gau dros dro.

5.12 Bydd y graddau y mae cyfleoedd wedi'u gwireddu (a'r heriau a wynebwyd) wrth ymgysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd yn destun adolygiad helaethach fel rhan o'r ymarfer astudiaeth achos yng ngham olaf y gwerthusiad; fodd bynnag, mae nifer o enghreifftiau'n dod i'r amlwg lle mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu gwireddu.

5.13 Mae The Plaza yn gweithio gyda'r YMCA lleol, sydd â llety gerllaw ac a fydd yn defnyddio'r caffi sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y ddarpariaeth fel rhan o raglen hyfforddi a dychwelyd i'r gwaith ar gyfer eu preswylwyr. At hynny, mae’r ddarpariaeth yn bwriadu cynnwys campfa iechyd a lles. Mae pwyslais y ddarpariaeth ar gynnwys pawb, gyda'r nod penodol o ddenu'r rhai na fyddent fel arfer yn cael mynediad i gampfa i hybu cynhwysiant cymdeithasol ynghyd â manteision iechyd a lles.

5.14 Yn 10 The Circle, crëwyd tri chyfle cyflogaeth leol, gan gynnwys ar gyfer cyfranogwr Cymunedau am Waith sydd wedi cael gwaith yn ddiweddar fel labrwr ar y safle, gyda'r contractwr yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i hyrwyddo hyfforddiant pellach a chyfleoedd lleoliad gwaith. Yn Neuadd Farchnad Aberteifi mae cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio stondinau dros dro, hyfforddiant a chyfleoedd i ymarfer masnachu, ac yn 7 Ffordd Abergele (Bae Colwyn) mae'r contractwyr wedi gweithio gydag ADTRAC ac OPUS, y ddau ohonynt yn brosiectau ESF lleol sy'n cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn hyfforddiant nac addysg. Hefyd, yn Nyffryn Taf bydd cyfres o weithgareddau adeiladu sgiliau cymunedol yn cael eu cyflwyno i drigolion lleol o'r hyb defnydd-cymysg sy'n rhan o'r prosiect.

*Cymraeg*

5.15 O ran hyrwyddo'r Gymraeg, mae'r Cyd-fuddiolwyr wedi ymateb yn bennaf mewn modd statudol yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, y Gymraeg (Mesurau Cymru 2011), ac mewn achosion lle mae’r awdurdod lleol yn Gyd-fuddiolwr, polisi iaith Gymraeg yr awdurdod lleol ei hun. Mae hyn fel arfer wedi cynnwys cyflwyno'r holl ddeunydd hyrwyddo a chyhoeddusrwydd (gan gynnwys arwyddion ledled y safleoedd) yn

ddwyieithog a'u trin yn gyfartal, yn ogystal â'r holl ddatganiadau i'r wasg a chyhoeddi swyddi cyfryngau cymdeithasol yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Mae'r holl weithdrefnau recriwtio ar gael i'w prosesu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Datblygu Cynaliadwy**

5.16 Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'n cynnwys adnewyddu neu addasu adeilad. Yn y prosiectau hyn deellir nad oes angen sicrhau safon Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM); fodd bynnag, disgwylir y bydd ymwybyddiaeth o BREEAM yn cael ei chynnal a'i hyrwyddo drwy gydol y gwaith adeiladu, gan fynd ati'n weithredol i wneud dyluniadau sy'n effeithlon o ran ynni lle y bo'n bosibl. Fel adeilad newydd, bydd Dyffryn Taf yn sicrhau gradd 'Da Iawn' BREEAM, tra bod prosiectau eraill, drwy adnewyddu, wedi hyrwyddo effeithlonrwydd ynni (gan gynnwys Neuadd Farchnad Aberteifi).

5.17 Mae'n ofynnol i bob prosiect gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru/WEFO ar gyfer ailgylchu deunyddiau. Disgwylir bod 10% o gyfanswm gwerth y deunyddiau a ddefnyddir yn deillio o ffynonellau wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio a bod o leiaf 25 y cant o agregau'n deillio o ffynonellau eilaidd neu ffynonellau wedi'u hailgylchu. Yn Neuadd Farchnad Caergybi, er enghraifft, mae sgist mica gwyrdd lleol o chwarel yn Ynys Môn yn rhan o’r adeilad yn ogystal â llechi lleol o chwarel y Penrhyn. Yn ôl bob prosiect deellir eu bod yn cyrraedd eu targedau gwastraff ac ailgylchu.

5.18 Ar gyfer adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu, dilynwyd nifer o fesurau arbed ynni, gan gynnwys defnyddio systemau dŵr llwyd. Mewn nifer o achosion, fodd bynnag, fel adeiladau rhestredig, gall yr addasiadau hyn fod yn gostus o ystyried yr adnoddau cyfyngedig a’r costau cynyddol. Mae'r Cyd-fuddiolwyr wedi ceisio sicrhau cydbwysedd mor agos â phosibl rhwng cadwraeth, effeithlonrwydd adnoddau ac effeithlonrwydd cost.

5.19 Unwaith y bydd adeiladau'n cael eu defnyddio, bwriedir cynnwys cynllunio mesurau pellach, gan gynnwys defnyddio tapiau amser-gyfyngedig a chyfleusterau storio dŵr, yn ogystal â thoiled pwrpasol dynodedig lle rhagwelir y bydd darpar denantiaid yn cadw at bolisi casglu ac ailgylchu gwastraff yr awdurdod lleol.

5.20 Ceir enghreifftiau hefyd o hybu bioamrywiaeth ar ôl eu cwblhau. Yng Nghanolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned, er enghraifft, mae cynlluniau ar y gweill i'r Grŵp Garddio blannu blodau gwyllt ac o bosibl gosod gwestai gwenyn a bocsys colomennod.

**Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**

5.21 Yn ogystal â myfyrio ar ddull prosiectau AAGYD o hyrwyddo Themâu Trawsbynciol, mae'n bosibl dangos enghreifftiau amrywiol sy'n dangos sut mae prosiectau a ariennir gan AAGYD fel arfer yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- **Cymru ffyniannus –** drwy gyd-fynd â mentrau cyflogaeth lleol a helpu i recriwtio pobl ddi-waith hirdymor, gan gynnig, yn bennaf drwy gymalau budd cymunedol, gyfleoedd ac agoriadau i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, yn enwedig drwy hyfforddeiaethau, prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith.
- **Cymru gydnerth** - drwy liniaru llifogydd yn ogystal â diogelu a gwella bioamrywiaeth. Dangosir enghreifftiau uchod yn y Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy; fodd bynnag, mae enghraifft arall o fewn prosiect Dyffryn Taf lle mae mesurau ar gyfer adar ac ystlumod (gan gynnwys bocsys ar gyfer gwenoliaid duon, adar y to, ac ystlumod sy'n clwydo yn ogystal â thwneli nythu i'w defnyddio gan wenoliaid y glennydd a glas y dorlan) wedi'u cynnwys. Mae Afon Taf hefyd yn cael ei diogelu rhag llygredd yn ystod y cyfnod adeiladu.
- **Cymru iachach –** adroddir bod y contractwr yn Nyffryn Taf wedi cefnogi Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol "Bwyd a Hwyl" Llywodraeth Cymru, tra bod y gampfa llesiant yn The Plaza yn darparu tystiolaeth bellach o aliniad.

- **Cymru sy’n fwy cyfartal** – drwy gymhwyso cymalau budd cymunedol ar draws prosiectau AAGYD ac, yn benodol, drwy integreiddio â chynlluniau cyflogadwyedd lleol i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant neu leoliad gwaith, yn enwedig i bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn ogystal ag i unigolion eraill sydd â nodweddion gwarchodedig.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - drwy ymgysylltu â'r gymuned yn y broses ddylunio ar gyfer y prosiectau, gan gynnwys ymgysylltu â grwpiau anabl, yn ogystal ag mewn prosiectau mwy, megis Dyffryn Taf, drwy ddefnyddio Rheolwr Cyswllt Cymunedol sy'n darparu rhaglen ymgysylltu â'r gymuned, gwerthoedd cymdeithasol a buddion cymunedol gan gynnwys prosiect etifeddiaeth gymunedol yn ystod y cyfnod adeiladu.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – drwy ddefnyddio cynlluniau teithio a/neu hyrwyddo mentrau trafnidiaeth gynaliadwy, megis yn The Plaza, lle mae'r hyb trafnidiaeth cyfagos yn cael ei hyrwyddo'n weithredol.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** - drwy gyhoeddi pob math o ddeunydd cyhoeddusrwydd y prosiect yn ddwyieithog, fel yr amlinellir yn isadran Themâu Trawsbynciol.

## 6. Sylwadau ar Raglen AAGYD

### Cyd-destun a gweithredu

6.1 Mae'r rhaglen AAGYD yn parhau i gyd-fynd yn agos â pholisi Llywodraeth Cymru ar adfywio, sydd, fel agenda polisi, wedi cael mwy o flaenoriaeth yn sydyn o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19. Yn wir, mae AAGYD yn cael ei ystyried yn eang ymhlith rhanddeiliaid a Chyd-fuddiolwyr i fod yn rhan o'r ymateb allweddol i'r problemau a wynebir gan ganol trefi ac mae wedi dod yn adnodd ymyrryd allweddol i adfer trefi a'u gwneud yn gynaliadwy.

6.2 Roedd y broses o wneud cais am y rhaglen yn gymhleth ac astrus gydag oedi hir ar ben hynny. Er bod agenda ranbartholi gref yn gysylltiedig â pholisi'r llywodraeth yng Nghymru, mae prosiectau adfywio AAGYD yn tueddu i beidio â bod yn rhanbarthol o ran maint, cwmpas na dylanwad. Ymddengys bod dyraniadau cyllid rhanbarthol tybiannol ac ymarferion blaenoriaethu rhanbarthol a fabwysiadwyd wrth weithredu rhaglen AAGYD wedi bod o werth cyfyngedig. Fodd bynnag, mae integreiddio neu gysylltiad agos â chynllun/strategaeth leol ar gyfer trefi fel arfer wedi bod yn nodweddiadol o rai o'r prosiectau AAGYD cryfach.

***Argymhelliad***

Dylid blaenoriaethu dulliau lleol, ond strategol o gynllunio a darparu ar y raddfa hon yn hytrach na chydweithredu rhanbarthol, yn enwedig os nad yw cynllun yn cael llawer o effaith dadleoli, os o gwbl, ar weithgareddau adfywio presennol/posibl eraill yn y rhanbarth.

6.3 Teimlai nifer o randdeiliaid y byddai wedi bod yn well pe bai rhai o'r gofynion a'r disgwyliadau ar Gyd-fuddiolwyr i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cyllid AAGYD wedi cael eu mynegi'n gynharach yn y rhaglen. I ddarpar Gyd-fuddiolwyr, mae'n bosibl y byddai gwybodaeth lawnach wedi arwain at drafodaethau llai hirfaith ac wedi cadw rhai ceisiadau'n rhan o'r rhaglen yn y cyfnod cychwynnol, gan helpu i newid a chanolbwyntio adnoddau ar y prosiectau hynny oedd yn fwyaf tebygol o gael eu cymeradwyo. Yn dilyn y blaenoriaethu rhanbarthol, mae'n bosibl y byddai cyfres o ddigwyddiadau i ddangos y tasgau dan sylw ac annog trafodaethau cydweithredol wedi

arwain at gynlluniau busnes o ansawdd gwell a chadw prosiectau a dynnwyd yn ôl maes o law yng nghyfnod cychwynnol y rhaglen.

***Argymhellion***

Dylid mabwysiadu dull mwy cydweithredol o gynllunio a datblygu darpar brosiectau i helpu i gyflwyno cynlluniau adfywio ar adeg briodol i helpu i hwyluso'r broses o'u gweithredu.

Byddai'r defnydd parhaus o ddigwyddiadau rhwydweithio wrth i'r rhaglen fynd rhagddi i drafod a rhannu'r gwersi a ddysgwyd ac arfer da wedi cael eu croesawu gan y Cyd-fuddiolwyr. Byddent hefyd wedi bod yn gyfrwng effeithlon i rannu negeseuon yn gyson, e.e. yn gysylltiedig â gofynion a chanllawiau.

6.4 Cafodd y broses o weithredu'r AAGYD ei rhwystro ymhellach gan lefel yr adnoddau oedd ar gael ymhlith tîm rhaglen AAGYD a thrwy weithredu strwythur llywodraethu a oedd yn golygu bod angen prosesau dau gam i'w cymeradwyo, yn gyntaf gan dîm rhaglen AAGYD ac yna gan WEFO. Arweiniodd hyn at rwystredigaeth ymhlith y Cyd-fuddiolwyr ynghylch hyd y broses a'r ffaith nad oedd yn bosibl cynnal deialog yn uniongyrchol â WEFO i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

6.5 Hefyd, wrth edrych yn ôl, myfyriodd rhanddeiliaid ar y ffaith y dylid bod wedi cymryd camau gorfodi, lle'r oedd heriau'n ymwneud â pherchnogaeth adeiladau. Mae tîm adfywio Llywodraeth Cymru wedi sicrhau gwasanaeth arbenigwr gorfodaeth yn ddiweddar a ddylai, o safbwynt cynlluniau yn y dyfodol, helpu i gyflymu'r broses o gaffael safleoedd a throsglwyddo i awdurdod lleol arweiniol, mewn achosion lle’r oedd y safle mewn perchnogaeth y tu allan i'r sector cyhoeddus cyn y cyfnod trosglwyddo hwnnw.

**Cyflawni**

*Prosesau a pherthnasoedd*

6.6 Mae'r gwaith o ddarparu adnoddau ychwanegol ymhlith tîm rhaglen AAGYD wedi cael croeso cynnes gan y Cyd-fuddiolwyr, gyda llawer yn dweud bod gwelliant sylweddol yn lefelau ac ansawdd y cyfathrebu yn dilyn y

newidiadau hyn. Roedd dod â phersonél â chyfranogiad a phrofiad uniongyrchol yn WEFO i dîm y rhaglen yn ymateb effeithiol iawn ac mae wedi datrys llawer o'r problemau'n ymwneud â chyfathrebu yr oedd y Cyd-fuddiolwyr wedi cyfeirio atynt yn ystod y cyfnod cychwynnol, gan helpu i gryfhau'r berthynas yn sylweddol.

***Argymhelliad***

Mae angen cynnwys digon o adnoddau mewn timau buddiolwr arweiniol o'r cychwyn cyntaf i helpu i hwyluso proses ymgysylltu a chyfathrebu ymatebol a chynhyrchiol â'r Cyd-fuddiolwyr.

6.7 Mae llwyddiant prosiectau a ariennir drwy raglen AAGYD yn parhau i ddibynnu'n sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyd-fuddiolwyr (awdurdodau lleol yn bennaf), arweinyddiaeth strategol, a'r parodrwydd cysylltiedig i fentro gyda phrosiectau a'r adnoddau cymharol ym mhob awdurdod lleol i helpu i yrru pob prosiect yn ei flaen drwy broses gymeradwyo gymhleth a biwrocrataidd.

*Cadw at y model cyflawni*

6.8 Mae cymhlethdodau'r broses a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn rhaglen AAGYD wedi dylanwadu ar rai o'r prosiectau a adawodd y rhaglen cyn dechrau, yn enwedig os oedd y Cyd-fuddiolwr yn sefydliad sector preifat. Mae sefydliadau trydydd sector hefyd wedi teimlo bod y broses yn arbennig o heriol, sy'n codi'r cwestiwn a yw'r rhaglen yn fwy addas i awdurdodau lleol nag i'r sector preifat a'r trydydd sector.

6.9 I awdurdodau lleol, gall adnoddau cyfyngedig (personél) i yrru'r prosiectau hyn yn eu blaen hefyd ddylanwadu ar eu hawydd i gymryd rhan yn y Rhaglen. Er bod yr agenda Trawsnewid Trefi a'r ymateb i bandemig COVID-19 wedi arwain at flaenoriaethu'r gwaith o adfywio canol trefi, mae cyflwyno cynlluniau ychwanegol i ymateb i'r materion hyn wedi rhoi pwysau pellach ar awdurdodau lleol sy'n gweithredu gydag adnoddau cyfyngedig.

6.10 Mae'r rhaglen yn darparu cyllid ar raddfa sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r adeiladau arbennig o heriol ac amlwg a safleoedd adfeiliedig yng nghanol trefi ac o'u cwmpas (gan gynnig lefelau uwch o fuddsoddiad na'r rhai a gynigir drwy'r rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu). Gyda chyllid ar

y raddfa hon, mae angen cryn risg ac arian cyfatebol. Mae hyn wedi atal rhai awdurdodau rhag cymryd rhan yn y rhaglen. I awdurdodau lleol eraill, mae rhaglen AAGYD a'r cyfleoedd a gyflwynwyd drwyddi wedi newid eu hagwedd at y safleoedd hyn, gan gydnabod maint y cyfle y mae'r rhaglen yn ei gynnig a'u hystyried fel cyfleoedd buddsoddi strategol hirdymor.

6.11 At hynny, er bod cael cyllid drwy'r rhaglen yn broses gymhleth, fiwrocrataidd, mae tîm AAGYD wedi cynnig rhywfaint o hyblygrwydd defnyddiol, yn enwedig o ran amserlenni ar gyfer buddsoddi ac o ran dod o hyd i atebion eraill i leihau cyfradd y rhai sy'n gadael y rhaglen cyn dechrau ac yn tynnu ceisiadau'n ôl yn y pen draw. Fel y disgrifiodd un Cyd-fuddiolwr, 'mae wedi ein galluogi i fynd i'r afael â materion ar raddfa na fu'n bosibl o'r blaen'.

***Argymhelliad***

Efallai y bydd angen model mwy hyblyg o gymorth ar gyfer adfywio o'r naill awdurdod i'r llall er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn adnoddau, yr agwedd at risgiau a'r awydd i fynd ati i adfywio ar draws awdurdodau lleol.

6.12 Mewn rhai achosion lle mae Cyd-fuddiolwyr wedi cael sêl bendith ar gyfer prosiectau, mae heriau annisgwyl yn gysylltiedig â chaffael wedi dod i'r amlwg. Mae defnyddio fframweithiau i gaffael gwaith wedi bod yn ddull cyffredin i Gyd-fuddiolwyr ac mae'n cynnig arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn y broses gaffael. Fodd bynnag, gall defnyddio fframweithiau fod yn broblem os nad oes gan y rhai sydd ar y fframwaith lawer o awydd i gystadlu i gyflawni prosiectau cymhleth a/neu os yw'r costau y maent yn eu cynnig yn llawer uwch na'r rhai a gyllidebwyd. Gall caffael drwy dendro ar y farchnad agored greu mwy o ddiddordeb ond mae angen mwy o adnoddau a gall ymestyn amserlenni caffael yn sylweddol.

6.13 Mae'r her fwyaf a wynebir gan ymgeiswyr i AAGYD wedi ymwneud â'r cynnydd mewn costau ar gyfer pob prosiect. Dywedir bod ymgeiswyr fel arfer wedi cynnwys tua 10 y cant o gyllid wrth gefn yn eu cyllideb, fodd bynnag, ceir adroddiadau bod rhai prosiectau wedi gweld cynnydd o tua 60 y cant mewn costau. Mae sawl ffactor wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn:

- y gwahaniaeth o ran amser (ac effaith chwyddiant) ers cyflwyno'r cais i ddechrau (yn ystod haf 2015) fel rhan o'r broses flaenoriaethu ranbarthol.
- cymhlethdodau'r safleoedd dan sylw a'r ffaith bod prisiau wedi'u hamcangyfrif cyn gwneud gwaith dylunio ac ymchwilio manwl.
- contractwyr yn cynnwys costau risg yn eu dyfynbrisiau adeiladu oherwydd pandemig Covid-19, a
- phris deunyddiau'n fwy anwadal a mwy o ansicrwydd ynghylch cyflenwadau (a chyflenwyr).

***Argymhellion***

Gyda safleoedd o'r math/cymhlethdod hwn, lle mae dyraniadau ariannol yn cael eu pennu, dylid ystyried gweithredu trothwy gofynnol wrth gefn.

Yn ogystal â throthwyon wrth gefn sefydlog, dylai darparu cronfeydd refeniw i gynnal astudiaethau archwiliadol/dichonoldeb cychwynnol ar gyfer cynlluniau, helpu i roi ychydig mwy o sicrwydd o ran cost a lleihau'r risg o gynnydd enfawr mewn costau. Gall hefyd helpu mwy o awdurdodau i gyflwyno cynlluniau adfywio posibl ar gyfer buddsoddi.

6.14 Mae hyblygrwydd cymharol yr amserlen sy'n gysylltiedig â gwario arian ERDF wedi dangos gwerth AAGYD i'r Cyd-fuddiolwr. Mae rhai prosiectau a ariennir drwy'r gwaith wedi cael eu newid yn ystod sawl cylch o raglenni adfywio Llywodraeth Cymru (e.e. Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) ac o reidrwydd felly, o ystyried eu cymhlethdod. Byddai'r gallu i ddyblygu'r dull hwn, ond gyda phroses fwy effeithlon o arfarnu a dyfarnu, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan awdurdodau lleol, yn enwedig lle gellid lleihau neu osgoi cyfyngiadau ariannu blynyddol.

***Argymhelliad***

Ar gyfer rhaglenni/ffynonellau ariannu yn y dyfodol, dylid ystyried cyfleoedd i leihau neu ddileu cyfyngiadau ariannu blynyddol.

6.15 Er bod hyblygrwydd cymharol mewn perthynas â gwariant blynyddol, er gwaethaf estyniad i amserlenni AAGYD, mae cyfuniad o brosiectau'n tynnu'n ôl ac oedi o ran gwaith adeiladu yn gysylltiedig â COVID-19 yn golygu bod methu â gwario'r cyllid a ddyrannwyd yn llwyddiannus o fewn amserlen y rhaglen yn parhau i fod yn bosibilrwydd. Mae sicrhau cymeradwyaeth WEFO a'r Panel Buddsoddi Adfywio Cenedlaethol ar gyfer y prosiectau hynny y mae angen sêl bendith arnynt o hyd, ac yna, llwyddo i gaffael contractwyr arweiniol yn flaenoriaethau clir i'r rhaglen er mwyn cyflawni'r nod hwn.

*Cynnydd yn erbyn dangosyddion allbwn*

6.16 Mae'r rhaglen yn cyflawni'n agos at y targed (o fewn 15 y cant) o ran swyddi a BBaChau a grëwyd, gyda mwy o ddiffyg (20-25 y cant) yn erbyn y targed o ran tir a ddatblygwyd a graddfa'r safleoedd a grëwyd/a adnewyddwyd. Mae diffyg sylweddol o ran lefelau'r buddsoddiad a ddenwyd ar gyfer y rhaglen (er bod eglurder ynghylch tarddiad a gwir raddfa'r diffyg hwn yn cael ei adolygu gan dîm y rhaglen) ac ar nifer yr hyfforddeiaethau ar y prosiect. Mae pandemig COVID-19 yn golygu bod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer lleoliadau gwaith a hyfforddeiaethau/prentisiaethau yn ystod cyfnod adeiladu prosiectau a ariennir, ac er y bydd cyfleoedd hyfforddeiaeth pellach o'r math hwn unwaith y bydd safleoedd yn weithredol, mae'n annhebygol y cyrhaeddir y targed. Bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar y graddau y gall prosiectau briodoli gweithgarwch i'r dangosydd canlyniadau ar gyfer AAGYD o leihau lefel leol diweithdra sy'n hawlio budd-dal diweithdra.

*Sefydlu cysylltiadau â'r farchnad lafur leol*

6.17 Ceir sawl enghraifft yn adran 5 o'r adroddiad hwn o brosiectau a ariennir sy'n cysylltu â'r farchnad lafur leol; unwaith eto, fodd bynnag, bydd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu prosiectau i wneud hynny. Wrth i fwy o safleoedd gael eu cymeradwyo, dechrau'r gwaith adeiladu ac yna, dod yn weithredol, bydd cyfleoedd pellach i gysylltu â'r farchnad lafur leol yn codi. Fodd bynnag, mae'r gallu i annog busnesau bach a chanolig a grëwyd, er enghraifft, i ddefnyddio'r farchnad lafur leol yn gyfyngedig ac mae perygl mai i raddau cyfyngedig y bydd yr elfen hon o'r gwaith yn llwyddo.

**_Argymhelliad_**

Bod cam olaf y gwerthusiad yn archwilio (yn fanwl) y dulliau o gysylltu â'r farchnad lafur leol, i ganfod y dulliau a gymerwyd a'r llwyddiant gyda'r rhain, ochr yn ochr â'r heriau a wynebwyd.

*Cynnydd yn erbyn Themâu Trawsbynciol*

6.18 Mae'r ffurflen asesu Themâu Trawsbynciol ar gyfer pob prosiect a ariennir gan AAGYD yn dangos defnydd eang o weithgareddau a gynigir gan ymgeiswyr sy'n cyfrannu at y Themâu. Gyda dim ond dau brosiect wedi'u cwblhau a sawl un heb ddechrau, mae cynnydd yn erbyn y Themâu Trawsbynciol yn parhau i fod yn anodd ei fesur. Deellir bod gwaith monitro Themâu Trawsbynciol yn cael ei gynllunio gan dîm rhaglen AAGYD a fydd yn helpu i asesu cynnydd yn erbyn yr amcan hwn.

**_Argymhelliad_**

Bod gweithgarwch astudiaethau achos yn cynnwys ac yn targedu adolygiad o gynnydd yn erbyn y Themâu Trawsbynciol (gan gynnwys yr heriau a'r cyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg drwy eu cyflawni).

*Gweithgarwch adfywio yn y dyfodol*

6.19 O ran gweithgarwch adfywio yn y dyfodol, ailadroddodd rhanddeiliaid eu bod yn awyddus i weld refeniw’n cael ei ddyrannu’n lleol i helpu i ariannu adnoddau i gynnal astudiaethau dichonoldeb neu i ddarparu capasiti ychwanegol i'r Cyd-fuddiolwyr i helpu datblygwyr drwy'r broses. Deellir bod Llywodraeth Cymru wedi darparu swm bach o gyllid refeniw yn ddiweddar i gynorthwyo'r broses hon.

6.20 Yn ogystal â darparu refeniw, mae'r addasiadau i ddull gweithredu tîm adfywio ehangach Llywodraeth Cymru o dan ymbarél Trawsnewid Trefi ochr yn ochr â pherthynas waith agosach â thîm Rhaglen AAGYD wedi cael eu croesawu gan y Cyd-fuddiolwyr. Mae sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd â’r agenda Trawsnewid Trefi yn cyfleu neges gyson sydd i'w chroesawu ac yn helpu i integreiddio adfywio â blaenoriaethau meysydd polisi eraill yn y sector cyhoeddus (cyflogadwyedd, iechyd a lles er enghraifft). Bydd y math

hwn o ddull integredig yn hollbwysig wrth ymateb i'r heriau y mae canol trefi yn eu hwynebu'n awr.

**Y camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad**

6.21 Bwriedir dechrau gwaith maes astudiaethau achos ddiwedd gwanwyn 2021; fodd bynnag, gallai'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â’r pandemig COVID-19 effeithio ar hyn.

6.22 Bydd gwaith maes ar gyfer pob prosiect (ymchwil gyda BBaChau a grëwyd, mapio gwariant, ac adolygiad o'r broses adeiladu) yn cael eu darparu ar sail dreigl a, lle y bo'n bosibl, yn cael eu cynnal 6–9 mis ar ôl cwblhau'r prosiect.

*Astudiaethau achos*

6.23 Dewiswyd y prosiectau canlynol fel astudiaethau achos ar gyfer y gwerthusiad. Bydd amseriad y cynlluniau adeiladu ar gyfer y prosiectau hyn yn dylanwadu ar ymgysylltu (gyda'r dull yn cadw at y drefn 6–9 mis uchod ar ôl cwblhau'r prosiect), a bwriedir dechrau gwaith maes ddiwedd gwanwyn 2021.

- Neuadd Farchnad Caergybi
- Adeiladau'r Frenhines, Y Rhyl
- Glowyr Caerffili
- Ocky White
- Neuadd Farchnad Aberteifi
- Neuadd Albert, Abertawe

6.24 Ar gyfer y prosiectau hynny, bydd y dull astudiaeth yn cael ei ddylanwadu gan elfennau o deipoleg y prosiect a'r fframwaith gwerthuso a gyflwynir yn Atodiad A ond bydd yn cynnwys detholiad o'r dulliau canlynol:

- Cyfweliadau ychwanegol â rhanddeiliaid (dim mwy na phump ar gyfer pob astudiaeth achos) gyda'r rhai sy'n ymwneud â chynnal a chyflawni’r prosiect maes o law (os yw'n berthnasol) er mwyn casglu safbwyntiau ar y prosesau ar gyfer y prosiect ac effaith y prosiect.

- Lle mae prosiectau wedi sefydlu gwasanaethau ychwanegol yng nghanol trefi a bod disgwyl effaith wirioneddol ar niferoedd, bydd y data ar niferoedd sydd ar gael yn cael ei ddadansoddi, a/neu bydd detholiad o fasnachwyr lleol (tua 25) a defnyddwyr canol trefi (tua 50) yn cael eu cynnwys er mwyn casglu eu safbwyntiau ar ôl cwblhau'r prosiectau.
- Lle ystyrir bod prosiectau'n amlwg iawn yn lleol, ymgysylltir â defnyddwyr canol trefi (tua 50) er mwyn casglu eu safbwyntiau ar y prosiectau ar ôl iddynt gael eu cwblhau. (Os yw'r prosiectau wedi effeithio ar niferoedd, yr un rhai fydd y rhain yr un – tua 50 o ddefnyddwyr canol tref.) Bydd sylw lleol (a chymdeithasol) yn y cyfryngau i'r safleoedd hefyd yn cael ei adolygu er mwyn helpu i fesur barn leol.
- Lle mae prosiectau a ddewisir fel astudiaethau achos yn rhagweld rôl fel atyniad i ymwelwyr, byddwn yn ceisio dadansoddi unrhyw ddata ymwelwyr a gasglwyd ar gyfer eu chwe mis cyntaf o weithredu er mwyn helpu i fesur yr effaith sy'n deillio o'r gweithgaredd hwn.

*Pob ymchwil prosiect – ar draws y rhaglen*

Ar gyfer **pob prosiect,** cyflawnir y tasgau ymchwil canlynol:

- Cyfweliadau rhanddeiliaid gyda buddiolwyr arweiniol yng nghamau interim a chamau olaf y gwerthusiad i ddeall cynnydd ac effaith pob prosiect.
- Dadansoddiad o wariant sy'n gysylltiedig ag adeiladu (os yw ar gael) i allu mapio'r effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a'u cwmpasu ar lefel rhaglen.
- Arolwg o fuddiolwyr pob prosiect (BBaChau) lle mae'r prosiect hwnnw wedi bod yn weithredol am o leiaf chwe mis er mwyn canfod y rôl (os o gwbl) y mae'r prosiect wedi'i chwarae o ran denu/cadw a hwyluso’r broses o ehangu'r BBaCh hwnnw.

## Deunydd Cyfeirio


Cambridge Economic Associates et al. (2010) *Valuing the Benefits of Regeneration – Economics Paper 7: Volume I – Final Report*, Llundain, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) *Labour Force Survey – Home workers and non-home workers by UK region 2018* (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) [Cyrchwyd 10  Rhagfyr 2020].

Llywodraeth Cymru (2013) *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Fframwaith Adfywio Newydd*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Rhaglen Weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ERDF*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015) *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – Dogfen Gwmpasu V1 – 140915*  (heb ei chyhoeddi).

Llywodraeth Cymru (2018) *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – Cynllun Busnes V14 (heb* ei gyhoeddi).

## Atodiad A: Fframwaith Gwerthuso Prosiectau a Dewis Astudiaethau Achos

Er mwyn helpu i sicrhau bod rhywfaint o gysondeb a chadernid wrth gasglu a gwerthuso tystiolaeth ar lefel prosiectau ar gyfer rhaglen AAGYD, mae angen datblygu fframwaith gwerthuso prosiectau. Dylid defnyddio'r fframwaith i ddarparu arweiniad cyffredinol ar natur y dystiolaeth y gellid ei chasglu er mwyn deall cyflawniadau (canlyniadau) ac effaith pob prosiect yn well. Bydd defnyddio rhywfaint o gysondeb o ran natur y dystiolaeth a gesglir a'r canlyniadau a'r effaith a adroddir yn rhoi cyfle i ddeall yn well ychwaneged pob prosiect i'r ardal leol ac i roi ymdeimlad o effaith gyfunol AAGYD ar draws y rhaglen.

Mae’r fframwaith gwerthuso prosiectau ar gyfer rhaglen AAGYD wedi'i gynllunio mewn modd sy'n anelu at gynnig ehangder a hyblygrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i bob prosiect a ariennir gan AAGYD, waeth beth fo'i raddfa, ei ffocws neu ei amseriad (o ran adeiladu, cwblhau a gweithredu).

*Damcaniaeth newid*

Mae ffocws y fframwaith gwerthuso prosiectau wedi'i lywio gan ddamcaniaeth newid ar gyfer y rhaglen (gweler Ffigur A.1 isod).

Mae gan ddamcaniaeth newid gyfres o allbynnau (a gesglir yn bennaf drwy adroddiadau monitro chwarterol sy'n olrhain gweithgareddau a gwblheir) a chanlyniadau - canlyniadau gweithgareddau (a gesglir drwy gyfuniad o fonitro a gwaith maes penodol sy'n targedu canlyniadau perthnasol).

*Fframwaith gwerthuso prosiectau*

Mae pwyslais y fframwaith ar asesu'r canlyniadau (ochr yn ochr â dangosyddion ychwanegol) a phriodoli'r rhain i bob prosiect AAGYD. Mae graddau priodoldeb canlyniad/dangosydd i bob prosiect yn amrywio yn dibynnu ar y math o brosiect a'r cam y mae'r prosiect arno o ran cyflawni (adeiladu/amser ers cwblhau’r gwaith adeiladu, ac ati), ac felly neilltuir 'math o brosiect' i gyfran o'r rhain.

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno:

- **Damcaniaeth newid rhaglen** AAGYD **(Ffigur A.1)** sy'n nodi'r rhesymeg dros archwilio dangosyddion allbwn a chanlyniadau penodol.
- **Fframwaith gwerthuso prosiectau** AAGYD **(Tabl A.1)** sy'n nodi sut a phryd y dylid casglu dangosyddion allbwn a chanlyniadau.
- **Map dangosyddion teipoleg y prosiect (Tabl A.2)** sy'n defnyddio cyfres o ddangosyddion i lywio cwmpas a dyfnder awgrymedig gweithgareddau monitro a gwerthuso ar gyfer pob prosiect a ariennir gan AAGYD.
- Cynigion sy'n gysylltiedig â **dewis astudiaethau achos** yn seiliedig ar gyd-destun pob prosiect a manylder cysylltiedig y dangosyddion monitro a gwerthuso y gallai pob prosiect effeithio arnynt.

**Ffigur A.1: AAGYD – Damcaniaeth Newid**

**Rhesymeg:** Mae tir neu adeiladau adfeiliedig ac na chânt eu defnyddio’n ddigonol yng nghanol trefi a'r ardaloedd cyfagos yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd lleoliadau ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gallai'r safleoedd pwysig hyn (yn aml) chwarae rhan sylweddol i ysgogi ac adfywio trefi; fodd bynnag, mae bwlch hyfywedd sylweddol wedi tanseilio unrhyw barodrwydd neu allu i fuddsoddi. Nod AAGYD yw pontio'r bwlch hwn o ran hyfywedd er mwyn denu buddsoddiad i safleoedd ac aildanio uchelgais leol ac adfywio ffisegol.

| **Mewnbynnau →** | **Gweithgareddau →** | **Allbynnau →** | **Canlyniadau →** | **Effeithiau** |
|---|---|---|---|---|
| • £38m mewn cyllid ERDF<br>• £16m yn Arian Cyfatebol wedi’i Dargedu<br>• £73m mewn arian cyfatebol arall (gan gynnwys buddsoddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyd-fuddiolwyr)[29] | • Blaenoriaethu safleoedd/cynlluniau posibl yn rhanbarthol<br>• Arfarnu a sgorio safleoedd/cynlluniau sydd ar y rhestr fer ranbarthol<br>• Datblygu cynllun busnes<br>• Arfarnu cynlluniau busnes gan dîm AAGYD<br>• Arfarnu cynlluniau busnes gan WEFO<br>• Cymeradwyo cynlluniau busnes gan WEFO a gan y Panel Buddsoddi Adfywio Cenedlaethol | • Xx o geisiadau AAGYD wedi’u cymeradwyo<br>• £54m AAGYD ac Arian Cyfatebol wedi’i Dargedu wedi'i ymrwymo<br>• Denu buddsoddiad o £79.6m (ERDF)<br>• Datblygu 2.98 hectar o dir (AAGYD)<br>• Creu/adnewyddu 61,879 $m^2$ o ofod llawr masnachol (ERDF)<br>• Creu 3,123 o swyddi mewn 198 o BBaChau (ERDF)<br>• Xxx o swyddi adeiladu dros dro wedi’u cefnogi<br>• 2,135 o swyddi gros wedi'u creu (AAGYD)<br>• 246 o hyfforddeiaethau (AAGYD)<br>• 115 o'r rhai sy'n gadael hyfforddeiaeth yn symud ymlaen i ddysgu pellach (AAGYD)<br>• 95 o'r rhai sy'n gadael hyfforddeiaeth yn symud ymlaen i gyflogaeth (AAGYD) | • Cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth hygyrch sydd wedi'u lleoli yng nghanol trefi<br>• Darparu adeiladau addas ar gyfer lleoli a thyfu busnesau<br>• Cynnydd mewn cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yng nghanol trefi wedi'u targedu at bobl ddi-waith<br>• Gostyngiad yn nifer yr adeiladau/safleoedd adfeiliedig/ na chânt eu defnyddio’n ddigonol yng nghanol trefi<br>• Cynnydd yn nifer y sefydliadau a leolir yng nghanol trefi<br>• Mwy o fasnachu yng nghanol trefi a gofod ar gyfer gwasanaethau<br>• Cynnydd mewn niferoedd, ymwelwyr a thrigolion a gwariant cysylltiedig<br>• Cryfhau partneriaethau, capasiti a phrofiad yn sgil cyflawni cynlluniau adfywio cymhleth<br>• Gostyngiad mewn safleoedd adfeiliedig /nas defnyddir amlwg yng nghanol trefi a chefn gwlad<br>• Mwy o ddiddordeb gan fuddsoddwyr mewn safleoedd cyfagos<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau a leolir yng nghanol trefi | • Cyfrannu at ostyngiad yn nifer y bobl economaidd anweithgar mewn marchnadoedd llafur lleol<br>• Buddsoddi mewn lleiniau/safleoedd cyfagos, a'u datblygu<br>• Mwy o les ac uchelgais cymunedol<br>• Gostyngiad mewn aelwydydd heb waith<br>• Gostyngiad yn y cyfraddau anweithgarwch economaidd mewn Ardaloedd |

[29] Deillio o arian cyfatebol arall ar gyfer pob prosiect a gymeradwywyd a phrosiectau ar y gweill ar ddiwedd Awst 2019 o fewn y llyfr gwaith gwybodaeth reoli ar gyfer rhaglen AAGYD.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Caffael timau dylunio ac adeiladu (yn ôl y gofyn)<br>• Adeiladu/ailddatblygu safleoedd<br>• Nodi defnyddiwr/defnyddwyr terfynol ar gyfer y safle | • Tystiolaeth o gyfraniad cadarnhaol i Drechu Tlodi a hybu Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy<br>• Tystiolaeth o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | • Llai o adeiladau sydd mewn perygl yng nghanol trefi<br>• Gostyngiad mewn tir halogedig a diffaith yng nghanol trefi<br>• Gostyngiad yn y gyfradd sy'n hawlio budd-dal diweithdra mewn Ardaloedd Teithio i'r Gwaith sy'n gysylltiedig â phrosiectau | Teithio i'r Gwaith yng nghanol trefi |

**Tybiaethau**

- Bod perchnogion/partïon â diddordeb sy'n gysylltiedig â safleoedd diddordeb allweddol yn barod ac yn gallu cyflwyno prosiectau ar gyfer cyllid posibl
- Bod modd dod o hyd i'r arian cyfatebol i dalu'r costau'n gysylltiedig â datblygiadau safleoedd
- Bydd cymeradwyo buddsoddiad gan WEFO/ y Panel Buddsoddi Adfywio Cenedlaethol yn arwain at ddatblygu safleoedd a gymeradwyir
- Bydd defnyddwyr terfynol y safleoedd yn cael eu nodi ar adeg briodol yn y rhaglen ymgeisio/adeiladu
- Bod darpar ddefnyddwyr terfynol y safleoedd yn defnyddio'r safleoedd a gwblhawyd yn y pen draw
- Bydd defnyddwyr terfynol y safleoedd yn creu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol i bobl leol
- Bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu gwneud â chynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant lleol fel bod cyfleoedd cyflogaeth a grëir drwy ddatblygu, cwblhau a defnyddio safleoedd yn hygyrch i bobl leol sy'n ddi-waith/economaidd anweithgar
- Bydd y cynlluniau ailddatblygu/adeiladu'n cynnwys buddion cymunedol gan gynnwys cyfleoedd hyfforddeiaeth
- Bod modd cwblhau'r cynlluniau adeiladu o fewn yr amserlenni sydd ar gael
- Bydd yr effeithiau dadleoli lleol sy'n deillio o ddefnyddio cyfleusterau a gwblhawyd yn fach iawn

**Rhwystrau (a Risgiau)**

- Gellid ystyried perchnogion tir fel 'landlord absennol' a/neu fod â disgwyliadau afrealistig o werth tir neu adeiladau
- Gall buddiolwyr ar y cyd yn y sector preifat a'r trydydd sector fethu prosesau diwydrwydd dyladwy
- Cost ailddatblygu adeiladau mewn cyflwr gwael neu o natur hanesyddol
- Bod y cyllid sydd ar gael wedi'i gyfyngu gan amser i hwyluso'r gwaith o gwblhau'r prosiectau

**Ffactorau galluogi**

- Ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol â darpar safleoedd
- Arfarniad cynnar o'r gallu i gyflawni safleoedd a flaenoriaethir yn rhanbarthol
- Darparu arian cyfatebol wedi'i dargedu fel arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen
- Cymorth gan Swyddogion Adfywio Llywodraeth Cymru a Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i gyflwyno prosiectau
- Cysylltiadau effeithiol â chynlluniau cyflogadwyedd lleol i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd cyflogaeth a grëir ar gyfer pobl leol ddi-waith neu economaidd anweithgar

| | |
|---|---|
| • Gallu a chapasiti ymgeiswyr sydd â diddordeb i gyflwyno prosiectau ar gyfer y rhaglen<br>• Costau annisgwyl yn gysylltiedig â'r prosiect a gymeradwywyd yn dilyn cymeradwyaeth ERDF<br>• Proses arfarnu helaeth ar gyfer ceisiadau am gynllun busnes<br>• Diffyg defnyddwyr terfynol addas ar gyfer cynlluniau datblygu | • Nodi defnyddwyr terfynol addas ar adeg briodol wrth ddatblygu prosiectau<br>• Cynnwys cymalau budd cymunedol ym mhob gweithgaredd adeiladu sy'n gysylltiedig â phrosiectau |

**Tabl A.1: Fframwaith Gwerthuso Prosiectau**

| Allbynnau | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Dull Casglu** | **Amseriad** | **'Math' o Brosiect** |
| **Cyfnod Cwblhau Adeiladu ac Adeiladu** | | | |
| • Lefel y buddsoddiad a ddenwyd (£)<br>• Tir a ddatblygwyd (Ha)<br>• Safleoedd a grëwyd/adnewyddwyd (SQM)<br>• Cyfanswm nifer yr hyfforddeiaethau<br>• Nifer yr hyfforddeiaethau sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach<br>• Nifer yr hyfforddeiaethau sy'n symud ymlaen i gyflogaeth<br>• Tystiolaeth o hyrwyddo'r Gymraeg<br>• Tystiolaeth o gyfraniad cadarnhaol i Drechu Tlodi a hybu Datblygu Cynaliadwy | Adroddiad cynnydd chwarterol | Chwarterol | Pob prosiect |
| • Lefel y buddsoddiad yn y sector preifat a ddenwyd | Cofnodir ar y ffurflen gynnydd; a'i sgorio mewn arfarniad ond ni chedwir unrhyw beth mewn adroddiadau cynnydd chwarterol; yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan dîm rhaglen AAGYD | Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu | Os yw prosiect wedi awgrymu buddsoddiad gan y sector preifat fel rhan o'i broffil ariannu |
| • Effeithiau gwariant sy'n gysylltiedig ag adeiladu | Mapio graddfa a lleoliad gwariant gwaith adeiladu (cyflenwyr) — cylchoedd 1 a 2 | Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu | Pob prosiect |
| **Cam Gweithredu (Rhagwelir y Dechreuir Tua 6 Mis Ar ôl Cwblhau'r Gwaith Adeiladu)** | | | |
| • Swyddi a grëwyd<br>• Busnesau Bach a Chanolig a grëwyd<br>• Nifer y swyddi gros a grëwyd<br>• Cyfanswm rhif o hyfforddeiaethau<br>• Nifer yr hyfforddeiaethau sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach<br>• Nifer yr hyfforddeiaethau sy'n symud ymlaen i gyflogaeth<br>• Tystiolaeth o hyrwyddo'r Gymraeg | Adroddiad cynnydd chwarterol | Chwarterol | Pob prosiect |

| Allbynnau | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Dull Casglu** | **Amseriad** | **'Math' o Brosiect** |
| • Tystiolaeth o gyfraniad cadarnhaol i Drechu Tlodi a hybu Datblygu Cynaliadwy | | | |

**Canlyniadau/Dangosyddion Eraill**

| Dangosydd (Mesur) | Dull Casglu | Amseriad | 'Math' o Brosiect |
|---|---|---|---|
| **Cwblhau Adeiladau** | | | |
| • Gostyngiad mewn tir halogedig a diffaith yng nghanol trefi (Y/N) | Asesu'r math o brosiect | Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu | Pob prosiect tir llwyd yng nghanol trefi |
| • Darparu adeiladau addas i fusnesau leoli a thyfu ($m^2$) | Adolygiad o'r math o gynllun | Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu | Pob prosiect |
| **Cam Gweithredu (Rhagweld y Dechreuir Tua 6 Mis Ar ôl Cwblhau'r Gwaith Adeiladu)** | | | |
| • Cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth hygyrch sydd wedi'u lleoli yng nghanol trefi (nifer y cyfleoedd CALI ychwanegol net) | Casglu a chyfrifo cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol net— ymgorffori dadleoli a chanran y diwaith sydd wedi cael swyddi | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Prosiectau adeiladu canol trefi |
| • Gostyngiad yn nifer yr adeiladau/safleoedd na chânt eu defnyddio'n ddigonol/adfeiliedig yng nghanol trefi (n) | Asesu'r math o brosiect (adnewyddu)<br>Archwilio effeithiau ysgogol ar fuddsoddiadau cyfalaf dilynol (drwy ymgynghori ag asiantau masnachol) | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Pob prosiect yng nghanol trefi |
| • Cynnydd mewn niferoedd a gwariant cysylltiedig | Dadansoddi camerâu niferoedd<br>Arolygu masnachwyr lleol<br>Cynnal asesiadau niferoedd | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Prosiectau sy'n debygol o ddylanwadu ar lefelau niferoedd (oherwydd maint/natur y prosiectau) |
| • Mwy o ddiddordeb gan fuddsoddwyr mewn safleoedd cyfagos | Ymgynghori ag asiantau masnachol<br>Ymgynghori â Swyddogion Datblygu Economaidd/Swyddogion Adfywio lleol | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Pob prosiect |
| • Cynnydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar ganol trefi | Adolygiad o ddefnyddwyr prosiectau canol trefi | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Pob prosiect sy'n ceisio darparu gwasanaethau yng nghanol trefi |

| Allbynnau | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Dull Casglu** | **Amseriad** | **'Math' o Brosiect** |
| • Diddordeb/balchder dinesig mewn prosiect newydd a'r ardal gyfagos | Arolwg defnyddwyr canol tref<br>Dadansoddiad o'r cyfryngau lleol a chymdeithasol | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Prosiectau canol tref gwerth >£5m (o fuddsoddiad AAGYD) |
| • Denu ymwelwyr/gwariant ychwanegol i'r ardal | Arolwg masnachwyr<br>Dadansoddiad o niferoedd defnyddwyr/math o gynulleidfa | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Prosiectau sy'n cynnwys rhyw fath o atyniad i ymwelwyr |

**Asesu a Phriodoli Effeithiau Ychwanegol Net**

| Dangosydd | Dull Cipio | Amseriad | 'Math' o Brosiect |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu (Rhagweld i Ddechrau Tua 6 Mis Ar ôl Cwblhau'n Adeiladu)** | | | |
| • Deall lefelau dadleoli busnesau bach a chanolig a grëwyd | Arolwg o sefydliadau a grëwyd | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Pob prosiect gyda BBaChau yn rhan ohonynt |
| • Rôl o ran cadw busnesau a grëwyd | Arolwg o sefydliadau a grëwyd | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Pob prosiect gyda BBaChau yn rhan ohonynt |
| • Swyddi a grëwyd yn yr ardal o ganlyniad i ddenu busnesau | Arolwg o sefydliadau a grëwyd | (O leiaf) 6 mis ar ôl cwblhau | Pob prosiect gyda BBaChau yn rhan ohonynt |

*Mapio prosiectau yn erbyn teipolegau allweddol*

Er mwyn helpu i lywio'r dull o fonitro a gwerthuso prosiectau AAGYD, mae trosolwg o bob prosiect a'i statws presennol wedi'i fapio yn erbyn cyfres o ddangosyddion allweddol (fel y nodir yn y tabl drosodd). Dewiswyd pob dangosydd i ddylanwadu ar natur y dystiolaeth y dylid ei chasglu er mwyn monitro a gwerthuso llwyddiant pob prosiect.

Cofnodwyd cyfanswm o  naw dangosydd:

- Lefel y buddsoddiad **nad yw'n fuddsoddiad AAGYD/ arian cyfatebol wedi'i dargedu** a ddenwyd i ariannu'r prosiect (yn enwedig os rhagwelir y bydd hyn yn fwy na £2 filiwn).
- **Canol tref:** lle mae'r prosiect wedi'i leoli yng nghanol y dref ac, felly, byddai'n cyfiawnhau ystyried canlyniadau perthnasol i ganol trefi mewn perthynas â gweithgarwch monitro a gwerthuso (e.e. cyfraddau safleoedd gwag).
- **Niferoedd:** p'un ai a fydd y prosiect yn debygol o gael effaith wirioneddol ar niferoedd yn y dref. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae cynlluniau adeiladu yn cynnwys cynnig sy'n canolbwyntio ar ansawdd gwasanaethau neu'n debygol o gynnwys busnesau sy'n cyflogi ar raddfa fawr. Lle y bo'n bosibl, dylai'r cynlluniau hyn geisio dadansoddi tueddiadau o ran niferoedd os yw'r dystiolaeth ar gael, neu o bosibl arolygu busnesau/masnachwyr lleol er mwyn mesur eu safbwynt ar dueddiadau niferoedd.
- **Gwerth >£5m:** mae'n bwysig bod gofynion monitro a gwerthuso prosiectau AAGYD yn gymesur â lefel y buddsoddiad gan y sector cyhoeddus y mae'r prosiectau'n elwa ohono. Tra byddai canolbwyntio ar drothwy ariannol penodol ar ei ben ei hun yn anaddas ar gyfer pennu graddau'r gwerthuso, ymhlith nifer o ddangosyddion eraill, mae'n rhoi rhagor o wybodaeth ar y lefel briodol o fonitro a gwerthuso y dylid ei mabwysiadu.
- **Gwasanaethau canol trefi:** mae cynnwys gwasanaethau ychwanegol yng nghanol trefi fel rhan o brosiect AAGYD yn awgrymu newidiadau sylweddol yn y 'cynnig' o ran niferoedd a chanol y dref a fyddai'n debygol o gyfiawnhau asesu newidiadau mewn niferoedd a/neu ganfyddiadau o effaith sy'n deillio o'r gweithgarwch cynyddol tebygol a grëwyd ar ôl cwblhau a gweithredu cynllun gan fasnachwyr lleol a/neu ddefnyddwyr canol tref.

- **Cysylltiedig ag ymwelwyr**: lle mae prosiectau AAGYD wedi cynnwys gwasanaethau a fydd yn debygol o ddenu ymwelwyr o'r tu hwnt i'r ardal leol, byddai casglu nifer yr ymwelwyr a'r rôl y mae'r adnodd wedi'i chwarae wrth eu denu i'r ardal leol yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol, atodol o effaith weithredol prosiect a ariennir gan AAGYD.
- **BBaChau a grëwyd**: bydd cynnwys BBaChau mewn cynlluniau adeiladu AAGYD yn debygol o helpu i gadw a thyfu cyflogwyr lleol gan gefnogi cyfleoedd i fewnfuddsoddi yn yr ardal. Unwaith y byddant yn weithredol, bydd casglu gwybodaeth sy’n dangos i ba raddau y mae'r prosiectau hyn wedi cyfrannu at yr elfennau hyn yn elfen bwysig wrth fesur effaith y rhaglen AAGYD.
- **Amlwg iawn yn lleol**: lle mae cynllun adeiladu yn amlwg iawn, naill ai'n weledol neu ar y cyd â'i dreftadaeth leol a'i werth lleol canfyddedig, gellid elwa ar gasglu safbwyntiau preswylwyr ar y cynllun (oherwydd mae’n debygol y bydd yn gyfarwydd ac yn adnabyddus) er mwyn deall eu safbwyntiau ar y gwaith ac unrhyw rôl y mae wedi'i chwarae i adnewyddu'r ymdeimlad o le a'u hymdeimlad o falchder, er enghraifft, yn eu hardal leol.
- **Amser cwblhau disgwyliedig:** dim ond ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu y gellir dechrau casglu barn am yr effeithiau gweithredol sy'n deillio o brosiectau AAGYD. Yn ddelfrydol, dylai hyn ddigwydd o leiaf chwe mis ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu. Os rhagwelir y bydd prosiectau'n cael eu cwblhau ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021, ystyrir eu bod yn darparu digon o amser o fewn y cyfnod ariannu ar gyfer y rhaglen AAGYD ar gyfer gwerthuso effeithiau gweithredol pob prosiect a gynhelir.

## Tabl A.2: Teipoleg Prosiectau

| | Buddsoddiad nad yw'n AAGYD/Arian Cyfatebol wedi'i Dargedu | Canol y Dref | Ymwelwyr | Cyfanswm Gwerth >£5m | Gwasanaethau Canol Trefi | Yn gysylltiedig ag Ymwelwyr | BBaChau a Grëwyd | Amlwg Iawn yn Lleol | Enw'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Taf (gwerthusiad allanol.) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hen Lys Ynadon | | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Neuadd Farchnad Caergybi | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 7 Ffordd Abergele | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ |
| Neuadd y Dref Maesteg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Neuadd Farchnad Llandeilo | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10 The Circle | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Costigan's | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ |
| Theatr y Palas | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| 8 Wind Street | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ |
| Glowyr Caerffili | | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| St Oswald | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ |
| YMCA Merthyr | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Swyddfa Bost y Rhyl | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ |
| Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines y Rhyl | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| The Plaza | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adeilad Ocky White | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |

| | Buddsoddiad nad yw'n AAGYD/Arian Cyfatebol wedi'i Dargedu | Canol y Dref | Ymwelwyr | Cyfanswm Gwerth >£5m | Gwasanaethau Canol Trefi | Yn gysylltiedig ag Ymwelwyr | BBaChau a Grëwyd | Amlwg Iawn yn Lleol | Enw'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Quay Stores (gwerthusiad allanol.) | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Neuadd Farchnad Aberteifi | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Neuadd Albert | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Theatr Elli | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adeiladau Orchard | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Stiwdios Gofod | | ✓ | | | | | ✓ | | |
| Hen Adeilad BHS | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cardigan Mash | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |

*Haenau'r prosiect*

Ar sail y deipoleg uchod, gellir gosod pob prosiect mewn un o dair haen. Mae'r haenau'n ymwneud â dyfnder delfrydol gweithgareddau monitro a gwerthuso ar gyfer pob prosiect ac yn adlewyrchu cwmpas, graddfa, natur unigryw, cymhlethdod ac effaith debygol pob prosiect. Dyma'r tair haen:

- **Haen 1:** mae'r rhain yn brosiectau ar raddfa fwy o fewn y rhaglen, yn aml bydd ganddynt rywbeth arbennig o unigryw neu wahanol yn eu cylch, a bydd ganddynt y potensial i greu effaith leol, ychwanegol a fyddai'n cyfiawnhau ymchwil pellach er mwyn canfod maint yr effaith honno. Ar gyfer y prosiectau hyn, argymhellir **gwerthusiad allanol sy'n benodol i'r prosiect** (ac, yn wir, mae rhai cynlluniau eisoes wedi comisiynu un), a fyddai'n cynnwys dulliau o gasglu tystiolaeth yn erbyn y gwahanol ddangosyddion sy'n berthnasol o fewn y fframwaith gwerthuso prosiectau a'r dangosyddion teipoleg yn Nhabl A.1 ac A.2.
- **Haen 2:** mae'r rhain yn brosiectau ar raddfa fwy cymedrol na'r rhai a restrir yn Haen 1. Er y byddai gwerthusiad allanol sy'n benodol i'r prosiect yn rhoi tystiolaeth a gwybodaeth ddefnyddiol am y prosiect, gellid casglu llawer o'r wybodaeth drwy ddull astudiaeth achos fel rhan o werthusiad y rhaglen. Mae'r dulliau gweithredu yn debygol o gael eu mabwysiadu fel rhan o **weithgareddau astudiaethau achos.**
- **Haen 3:** mae'r prosiectau hyn yn llai fyth o ran maint a byddant yn debygol o fod yn gynllun adeiladu symlach gydag effaith gyfyngedig ar yr ardal gyfagos. Gallai llawer o'r dystiolaeth i gasglu eu heffaith ychwanegol ddeillio o'r **trefniadau monitro mewnol presennol a'r gweithgareddau gwerthuso atodol ar draws y rhaglen** (ceir rhagor o fanylion am gwmpas y gweithgareddau gwerthuso isod).

**Gweithgareddau ymchwil a gwerthuso wedi'u cynllunio**

*Prosiectau Haen 1*

Cynigir bod y prosiectau canlynol yn cael eu hystyried yn brosiectau Haen 1 ac, felly, dylid eu hannog (os na wnaed eisoes) i gomisiynu gwerthusiad allanol. Dylid amseru'r gwerthusiadau fel ei bod yn bosibl casglu effeithiau gweithredol y prosiectau, chwe mis ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu.

- Dyffryn Taf
- Neuadd y Dref Maesteg
- The Plaza
- Quay Stores
- YMCA Merthyr

Ni chynhelir gwerthusiad allanol ar gyfer y canlynol, yn bennaf am eu bod yn annhebygol o gael eu cwblhau mewn da bryd i ganiatáu i effeithiau gweithredol y cynllun gael eu casglu (cwblheir y gwaith adeilad ar ôl mis Rhagfyr 2021). O ganlyniad, maent wedi'u cynnwys fel opsiynau astudiaeth achos (Haen 2) gyda phwyslais y broses ar lunio'r astudiaethau achos hyn. Pe bai amserlenni'r rhaglen yn cael eu hymestyn, gellid cyfiawnhau darparu gwerthusiad allanol o'r cynlluniau hyn.

- Neuadd Albert
- Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines y Rhyl

*Dewis astudiaeth achos*

Roedd y tendr gwreiddiol a gyflwynwyd yn cynnig cynnwys 10–12 o astudiaethau achos fel rhan o werthusiad y rhaglen. Ers dechrau'r gwerthusiad cynigiwyd bod Wavehill yn gwneud gwaith maes ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol i ychwanegu at y ddealltwriaeth o effaith a llwyddiant pob prosiect, y gellir ei ddefnyddio i gwmpasu'r effaith ar lefel rhaglen. Mae'r gwaith maes ychwanegol hwn sy'n gysylltiedig â phob astudiaeth achos a ddewiswyd yn golygu bod angen llai o astudiaethau achos er mwyn caniatáu i ddigon o adnoddau gael eu dyrannu i bob un o'r prosiectau astudiaethau achos a ddewiswyd. Awgrymir felly y dylid ystyried wyth prosiect yn astudiaethau achos (fel y nodir yn Nhabl A.3 isod).

**Tabl A.3: Astudiaethau Achos a Awgrymir**

| Astudiaeth Achos a Awgrymir | Rhesymeg |
|---|---|
| Neuadd Albert* | Cynllun cymhleth gyda dysgu ac ymarfer amrywiol sy'n werth ei archwilio drwy ddull astudiaeth achos. Er ei fod yn sylweddol o ran maint, mae'n annhebygol o gael ei gwblhau mewn da bryd i archwilio ei effeithiau gweithredol (gan hynny, cyfyngir ar botensial/gwerth gwerthusiad allanol sy'n benodol i'r prosiect). |
| Neuadd Farchnad Caergybi | Mae cyfuniad o gynllun a llyfrgell yn arwain at waith adeiladu sylweddol ar y cyd gyda nifer o fuddion a allai fod yn werth eu harchwilio drwy astudiaeth achos a gwaith maes cysylltiedig. |
| Adeiladau'r Frenhines* | Cynllun ar raddfa sylweddol ac effaith debygol ond byddai amseriad y gwaith adeiladu'n awgrymu mai effeithiau gweithredol cyfyngedig y gellir eu casglu drwy werthusiad gan ei wneud yn addas ar gyfer model astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar broses. |
| Glowyr Caerffili | Cynllun ar raddfa fach a arweinir gan y trydydd sector nad yw'n cyfiawnhau gwerthusiad sy'n benodol i'r prosiect. |
| Ocky Whites | Er nad yw'n brosiect ar raddfa fawr, mae'n debygol y bydd ganddo nifer o fuddion i'r dref. |
| Neuadd Farchnad Aberteifi | Cynllun ar raddfa fach a arweinir gan y trydydd sector sydd/fydd yn cael effaith ar y dref ac ar nifer gymharol fawr o fusnesau bach. |

## Atodiad B: Canllawiau Trafod Rhanddeiliaid

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid – tîm rhaglen AAGYD**

1. Rhowch amlinelliad o'ch rôl a pha ran sydd gennych yn rhaglen AAGYD.

2. Sut (os o gwbl) y mae natur eich rôl (mewn perthynas â rhaglen AAGYD) wedi esblygu dros amser?
    a. Ydi lefel gyffredinol y llwyth gwaith wedi lleihau/cynyddu dros y cyfnod hwnnw?

***Perfformiad***

3. O'ch safbwynt chi, pa mor dda y mae prosiectau a ariennir drwy AAGYD yn perfformio ac yn datblygu'n gyffredinol?
    a. Yn fwy penodol, sut mae'r rhaglen yn perfformio yn erbyn:
        i. Y prif amcanion o fynd i'r afael â thir neu adeiladau adfeiliedig, na chânt eu defnyddio'n ddigonol o fewn, neu'n gysylltiedig â chanol trefi a dinasoedd, gan greu swyddi a thwf a chyfrannu at fywiogrwydd a niferoedd yn y lleoliadau hynny?
        ii. dangosyddion ERDF?
        iii. dangosyddion Llywodraeth Cymru?

4. Beth fyddech chi'n ei ddisgrifio fel prif gryfderau'r prosiectau hynny sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf neu sydd wedi bod yn fwyaf llwyddiannus?

5. Yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus y mae prosiectau wedi bod o ran denu buddsoddiad gan y sector preifat?
    a. Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?
    b. Oes yna unrhyw brosiectau sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus?

6. Beth fyddech chi'n ei ddisgrifio fel y prif heriau sy'n wynebu prosiectau a ariennir drwy raglen AAGYD?
    a. Oes yna unrhyw batrymau neu dueddiadau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn a allai gynnig rhywfaint o wybodaeth i egluro pam fod yr heriau hyn yn dod i'r amlwg?

7. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau neu'r risgiau posibl i gyflawni'r prosiectau unigol a ariennir drwy raglen AAGYD yn llwyddiannus?

***Rheoli rhaglenni***

8. Beth fu'r dull gweithredu mewn perthynas â chynnig cymorth i brosiectau AAGYD gan dîm AAGYD unwaith y bydd prosiectau wedi cael sêl bendith ariannol?

9. Pa ran (os o gwbl) y mae aelodau eraill o dîm adfywio Llywodraeth Cymru yn ei chwarae i gefnogi'r prosiectau a ariennir?
    a. Sut (os o gwbl) y mae hyn yn cyd-fynd â chefnogaeth tîm rhaglen AAGYD?

10. Ym mha ffyrdd y mae cynrychiolwyr WEFO yn cynnal deialog a chyfathrebu â:
    a. Phrif fuddiolwyr y prosiectau a ariannwyd unwaith y byddant wedi cael sêl bendith ariannol?
    b. Tîm rheoli rhaglen AAGYD?
    c. Pa mor llwyddiannus fu'r dull hwn? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?

11. Pa heriau yr ydych wedi'u hwynebu wrth ddarparu cymorth drwy raglen AAGYD dros y 12 mis diwethaf i brif fuddiolwyr? Sut, os o gwbl, y mae'r rhain wedi'u goresgyn?

12. Gan fyfyrio ar y gwahanol strwythurau a phrosesau rheoli a llywodraethu ar y lefel genedlaethol ar gyfer rhaglen AAGYD, a ydych yn teimlo mai'r rhain yw'r dulliau mwyaf addas i'w mabwysiadu ar gyfer rhaglen o'r math hwn neu a ellid gwneud unrhyw welliannau?

13. Yn eich barn chi, sut (os o gwbl) y gellid mireinio/gwella'r rôl a'r gefnogaeth y mae tîm y rhaglen yn ei rhoi i'r prosiectau a ariennir?

***Themâu Trawsbynciol ac effaith leol***

14. Un o amcanion y gwaith yw bod buddiolwyr arweiniol yn sefydlu cysylltiadau rhwng y farchnad lafur leol a/neu raglenni cyflogadwyedd craidd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. I ba raddau y mae prosiectau wedi sefydlu'r rhain?
    a. Oes gennych chi unrhyw enghreifftiau o brosiectau lle mae'r dull hwn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus?
    b. Pa heriau y mae prosiectau wedi'u hwynebu wrth sefydlu cysylltiadau?

15. Pa ddulliau y mae buddiolwyr arweiniol yn eu defnyddio wrth hyrwyddo:
    a. Datblygu Cynaliadwy?
    b. Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd?
    c. Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol?

16. O ran hyrwyddo Themâu Trawsbynciol, pa ddulliau yr ydych yn gyfarwydd â nhw ydych chi'n meddwl sydd wedi bod yn arbennig o nodedig neu arloesol?

17. Pa elfennau sy'n gysylltiedig â Themâu Trawsbynciol sydd wedi gweithio'n arbennig o dda?
    a. Pa Themâu Trawsbynciol sydd wedi bod yn heriol i'w hyrwyddo? Oes gennych chi unrhyw enghreifftiau i ddangos sut y mae'r rhain wedi'u goresgyn?

18. Sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo drwy weithgarwch prosiectau?
    a. Sut mae hyn yn cael ei fonitro?

19. Sut mae'r rhaglen wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

***Sylwadau***

20. Gan fyfyrio ar eich profiad o AAGYD hyd yma, ac fel model ar gyfer adfywio, beth yn eich barn chi yw:
    a. Ei phrif gryfderau?
    b. Ei phrif wendidau neu feysydd i'w gwella ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol?

***Unrhyw beth arall...***

21. Oes yna unrhyw beth arall y dylem fod yn ymwybodol ohono neu yr hoffech i ni ganolbwyntio'n benodol arno fel rhan o'r gwerthusiad?

22. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu nad ydym wedi'i gynnwys?

*Diolch am eich amser!*

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid – buddiolwyr arweiniol**

1. Rhowch amlinelliad o'ch rôl a pha ran sydd gennych yn rhaglen AAGYD.
    a. Allwch chi gadarnhau pa brosiect(au) rydych chi'n eu goruchwylio?

***Gweithredu***

2. Allwch chi gofio sut y daethoch yn ymwybodol o'r rhaglen AAGYD?

3. Pa mor barod oedd eich prosiect pan wnaethoch chi gais am arian AAGYD (e.e. aros am arian cyfatebol, yn barod i ddechrau, yn aros am gymeradwyaeth leol)?

4. Beth yw eich barn am y broses cynllunio busnes a chymeradwyo?
    a. Fyddai hi'n bosibl gwella'r dull o arfarnu a chymeradwyo o gwbl? Os felly, ym mha ffyrdd?

***Perfformiad***

5. Sut mae'r prosiect(au) yr ydych yn ei gyflawni (eu cyflawni) yn perfformio yn erbyn ei gynllun busnes a'i amcanion (eu cynlluniau busnes a'u hamcanion)?
    a. Ble ydych arni ar hyn o bryd o ran cerrig milltir eich prosiect (cynllunio, adeiladu/gweithredu, ac ati)?
    b. Os yw'r gwaith adeiladu heb ei orffen, pryd ydych chi'n rhagweld y bydd y gwaith adeiladu'n cael ei orffen?
    c. Sut mae'r prosiect yn perfformio yn erbyn ei gyllideb a broffiliwyd. Os bu unrhyw amrywiannau i'r hyn a broffiliwyd, beth sydd wedi dylanwadu ar hyn?
    d. Sut mae'r prosiect yn perfformio yn erbyn ei allbynnau ERDF (tir a ddatblygwyd, safleoedd a grëwyd/adnewyddwyd, swyddi a BBaChau a grëwyd)?

6. Beth fyddech chi'n ei ddisgrifio fel prif gryfderau'r dull rydych chi wedi'i gymryd gyda'ch prosiect(au) hyd yma?

7. Ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19, beth fyddech chi'n ei ddisgrifio fel y prif heriau rydych chi wedi'u hwynebu wrth gyflawni'r prosiect(au)?
    a. Beth (os o gwbl ) a wnaed i oresgyn yr heriau a gafwyd?

8. Pa effaith (os o gwbl) y mae COVID-19 wedi'i chael ar gynnydd eich prosiect?
    a. Sut (os o gwbl) yr ydych wedi mynd i'r afael â'r materion/heriau hyn?

*Ar gyfer y prosiectau hynny nad ydynt wedi cwblhau eu cyfnod adeiladu hyd yma. Dylai pawb arall fynd ymlaen i gwestiwn 10.*

9. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau neu'r risgiau posibl i gyflawni eich prosiect(au) yn llwyddiannus?

***Rheoli rhaglenni***

10. Ers cael sêl bendith ariannol i'ch prosiect, beth fu'r broses o ran adrodd ar gynnydd i dîm rhaglen AAGYD Llywodraeth Cymru?

11. Yn fwy cyffredinol, sut (os o gwbl) ydych chi wedi ymgysylltu â thîm y rhaglen ers cael sêl bendith ar gyfer eich prosiect(au)?

12. Beth yw eich barn am y gefnogaeth gan dîm rhaglen AAGYD?
    a. Sut (os o gwbl) y gellid mireinio/gwella rôl a chefnogaeth tîm y rhaglen?

13. Ers cael sêl bendith ar gyfer eich prosiect(au) AAGYD, sut (os o gwbl) ydych chi wedi ymgysylltu â'r tîm yn WEFO?

14. Beth yw eich barn am y gefnogaeth gan WEFO? Oes yna unrhyw ffordd y gellid ei gwella o gwbl?

15. Gan fyfyrio ar eich profiad o raglen AAGYD hyd yma, ac fel model ar gyfer adfywio, beth yn eich barn chi yw:
    a. Ei phrif gryfderau?
    b. Ei phrif wendidau neu feysydd i'w gwella ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol?

***Deall cyflawniadau ac effaith***

16. Sut mae'r prosiect/rhaglen wedi perfformio yn erbyn cyflawni nodau, amcanion a dangosyddion y Themâu Trawsbynciol (Cyfle Cyfartal, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi), yn ogystal â dangosyddion sy'n gysylltiedig ag achosion (prosiectau) Themâu Trawsbynciol?
    a) Sut mae'r Themâu Trawsbynciol wedi cael eu hyrwyddo, eu cefnogi a'u gweithredu gan eich rhaglen/prosiect?
    b) Beth sydd wedi gweithio'n dda/beth na weithiodd?
    c) Pa broblemau sydd wedi'u nodi a sut ydych chi wedi mynd i'r afael â'r rhain?

17. Sut ac i ba raddau y mae'r prosiect/rhaglen wedi darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei weithgarwch?

18. Sut mae'r prosiect/rhaglen wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

19. Pa ddulliau budd cymunedol sydd wedi'u defnyddio (neu y bwriadwch eu defnyddio os nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto) fel rhan o'r rhaglen adeiladu ar gyfer eich prosiect?
    a. Beth ydych chi'n rhagweld y bydd hyn yn arwain ato (nifer y prentisiaid, ac ati)?
    b. Gyda pha gynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant lleol (os o gwbl) ydych chi wedi llwyddo i gysylltu â nhw?
        i. Ar ba bwynt yn y prosiect yr ymgysylltwyd â'r cynlluniau hyn?
        ii. Beth sydd wedi deillio o ymgysylltu â'r cynlluniau hyn (nifer y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan, ac ati)?

*Ar gyfer y prosiectau hynny lle mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau. Os nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau hyd yma, ewch ymlaen i gwestiwn 24.*

20. Oedd unrhyw nodau eraill ar gyfer cyfnod adeiladu'r prosiect? Os felly, i ba raddau y cyflawnwyd y rhain?

*Ar gyfer y cynlluniau hynny lle mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Dylai pawb arall fynd ymlaen i gwestiwn 24.*

21. Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran gweithredu'r cynllun a gwblhawyd (yn enwedig ynghylch lefelau defnyddio a defnydd gweithredol)?

22. Ydi'r prosiect a gwblhawyd ac a weithredir wedi cael effaith ysgogol ar unrhyw effeithiau eraill yn yr ardal leol (e.e. mwy o ymholiadau mewnfuddsoddi neu gynlluniau adeiladu cyfagos wedi cychwyn maes o law)?
    a. Ydi'r prosiect wedi arwain at unrhyw effeithiau anfwriadol neu annisgwyl?

23. Rydym yn bwriadu arolygu tenantiaid cynlluniau a gwblhawyd yn yr hydref i ddeall y rôl y mae'r adnodd wedi'i chwarae wrth weithredu eu busnes. Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau wrth wneud y gwaith maes hwn?

***Unrhyw beth arall...***

24. Fel prif fuddiolwr, beth fyddech chi'n ystyried yw'r prif wersi rydych chi wedi'u dysgu o'r rhaglen AAGYD?

25. Oes yna unrhyw beth arall y dylem fod yn ymwybodol ohono neu yr hoffech i ni ganolbwyntio'n benodol arno fel rhan o'r gwerthusiad?

26. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu nad ydym wedi'i gynnwys?

*Diolch am eich amser!*